CYMRAEG 2050

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

## Adroddiad blynyddol 2024–25




© Aled Llywelyn

## Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2024–25

**Cynulleidfa**

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

**Trosolwg**

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, lansiwyd *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* ym mis Gorffennaf 2017, wedi i'r strategaeth flaenorol dynnu i'w therfyn.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Cymraeg 2050
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

@Cymraeg

Facebook/Cymraeg

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/y-gymraeg

**Dogfennau cysylltiedig**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Rhaglen waith 2021 i 2026* (2021); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011–2050* (2017)

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53753, ISBN digidol 978-1-83745-351-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair yr Ysgrifennydd Cabinet** | **1** |
| **Cyd-destun – 'Cymraeg 2050'** | **2** |
| **Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** | **3** |
| **Thema 2: Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg** | **28** |
| **Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun** | **38** |
| **Casgliad** | **58** |

# Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Mae cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn wedi rhoi cyfle imi gnoi cil nid yn unig ar y cynnydd yn ystod 2024-25, ond hefyd ar daith polisi iaith ers dechrau datganoli. Heddiw, mae'r syniad bod y Gymraeg yn perthyn i ni gyd yn rhan naturiol o'n bywyd fel cenedl. Mae ewyllys da tuag at yr iaith yn parhau i fod yn un o'i phrif gryfderau.

Yn ystod fy nghyfnod yn y llywodraeth, rydw i wedi gweld â'm llygaid fy hun pa mor benderfynol y mae pobl Cymru o sicrhau dyfodol disglair i'r Gymraeg. Rydw i wedi gweld angerdd teuluoedd dros drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, egni athrawon ac ymarferwyr wrth ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, a chreadigrwydd cymunedau wrth ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud i'r Gymraeg ffynnu. Rydw i wedi gweld ysgolion Cymraeg newydd yn agor eu drysau, adnoddau digidol arloesol yn cael eu lansio, ein Heisteddfodau'n llewyrchu a'n digwyddiadau diwylliannol yn tyfu, gan greu mwy a mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith.

Rydw i'n arbennig o falch o'r gefnogaeth drawsbleidiol wnaeth arwain at basio Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 – llwyddiant hollbwysig a fydd yn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle i fod yn siaradwr Cymraeg hyderus erbyn 2050. Nid carreg filltir wleidyddol yn unig oedd sicrhau consensws yn hyn o beth, ond prawf o angerdd ein cenedl at ein hiaith.

Mae ein gweithleoedd yn fwy dwyieithog erbyn hyn hefyd. Mae miloedd o bobl wedi achub ar gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith drwy gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Rydyn ni eisoes wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu ar argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, ac rydw i'n edrych ymlaen at ddarllen adroddiad ail gam y Comisiwn pan gaiff ei gyhoeddi. Gyda'i gilydd, mae'r ddau gam yn creu sylfaen amhrisiadwy i'r dyfodol ar gyfer polisi iaith yng Nghymru.

Drwy weithio gyda'n gilydd, rydw i'n hyderus o weld dyfodol disglair i'r Gymraeg – dyfodol lle rydyn ni i gyd yn teimlo ein bod yn perthyn i'r Gymraeg, a'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd.

Diolch o galon,

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Mawrth 2026**

## Cyd-destun – ‘Cymraeg 2050’

‘Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr’ yw ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Mae ganddi ddau brif darged:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy’n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy’n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013-15) i o leiaf 20% erbyn 2050.

Ar ôl pob blwyddyn ariannol, rhaid i Weinidogion Cymru (o dan Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) gyhoeddi adroddiad ar gynnydd y strategaeth iaith yn ystod pob blwyddyn ariannol.

Mae’r ddogfen hon yn adrodd ar flwyddyn ariannol 2024-25 ac yn cynnwys manylion ein cynnydd o dan dair thema ‘Cymraeg 2050’:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu defnydd o’r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cyflwynwyd ail Raglen Waith 5 mlynedd ‘Cymraeg 2050’ (ar gyfer 2021-26) ar ddechrau’r llywodraeth hon. Mae’r adroddiad hwn yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y rhaglen honno ac ein Cynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn 2024-25.


# Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

## Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy’n siarad Cymraeg?

Y cyfrifiad yw’r ffynhonnell allweddol sy’n cael ei defnyddio i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 538,300 o bobl tair oed neu hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, neu 17.8% o’r boblogaeth.

Ond gan fod yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth yn darparu canlyniadau amlach, mae’n ffynhonnell ddefnyddiol er mwyn edrych ar dueddiadau yng ngallu’r boblogaeth yn y Gymraeg rhwng cyfrifiadau.

**Siart 1: Nifer y bobl tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, o 2001 i fis Mawrth 2025**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a chyfrifiad y boblogaeth

[Nodyn 1] Newidwyd i gynnal yr arolwg dros y ffôn yn unig.

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, roedd 828,600 o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, neu 26.9% o’r boblogaeth.

Mae ffigurau’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth yn amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn ac yn dueddol o fod yn uwch na ffigurau’r cyfrifiad. Mae tueddiadau

diweddar yr Arolwg yn dangos cwymp ac mae'n anodd gwybod i sicrwydd beth sy'n gyfrifol am hynny. Dylid dehongli'r gostyngiad hwn gyda gofal gan fod newid wedi bod yn y modd y cynhelir yr arolwg yn ddiweddar, a hefyd gan fod y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi cytuno y dylid atal statws ystadegau swyddogol achrededig yr ystadegau dros dro oherwydd yr ansicrwydd cynyddol ynghylch amcangyfrifon sy'n deillio o'r ffynhonnell.

## 1. Trosglwyddo iaith o fewn y teulu

Mae ‘Cymraeg 2050’ yn nodi’n hawydd i ‘weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo’r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno’r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn...’.

Rydym wedi parhau i weithredu’n ‘Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo’r Gymraeg a’i defnydd mewn teuluoedd’, a gyhoeddwyd gennym ym mis Ionawr 2021. Mae’r polisi’n canolbwyntio ar sut rydym yn gwneud y canlynol:

i. Ysbrydoli plant a phobl ifanc heddiw i siarad Cymraeg gyda’u plant nhw yn y dyfodol.
ii. Ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio’r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy’n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda’u plant eu hunain.
iii. Cefnogi ac annog y defnydd o’r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
iv. Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda’u plant.

Mae ein gwaith yn y maes hwn gyda’r gwyddorau ymddygiadol wedi parhau, gan ganolbwyntio ar rieni sydd â sgiliau Cymraeg ond nad ydynt o reidrwydd yn defnyddio’r sgiliau hynny gyda’u plant. O dair elfen y gwaith (gwybodaeth a anfonwyd at rieni, teganau a cherddoriaeth), yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd treialon ar sut y gellir defnyddio teganau i sbarduno defnydd iaith rhwng rhieni/gwarcheidwaid a’u plant. Rydym hefyd wedi archwilio sut y gall cerddoriaeth sbarduno defnydd iaith rhwng y cenedlaethau, yn enwedig yn achos tadau sydd â gallu (o unrhyw fath) yn y Gymraeg.

Rydym yn ariannu cynllun cenedlaethol Cymraeg i Blant i gefnogi rhieni i ddefnyddio Cymraeg gyda’u plant, ac i ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae’r cynllun yn gam pwysig ar y daith tuag at addysg Gymraeg gyda nifer o’r awdurdodau lleol yn cydnabod cyfraniad y rhaglen yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Drwy gyfres o sesiynau am ddim i rieni a’u plant, mae rhwydwaith o swyddogion Cymraeg i Blant yn cefnogi teuluoedd i gyflwyno a defnyddio’r Gymraeg gartref, trosglwyddo’r Gymraeg i’w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol, cymdeithasol ac addysgol plant. Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd 3,392 o sesiynau rhithiol ac wyneb yn wyneb gyda 27,664 o rieni a 27,818 o blant yn cael eu cefnogi.

Ym mis Mai 2024, fe wnaethom gyhoeddi bwletin ystadegol sy’n cynnwys dadansoddiad pellach o gyfraddau trosglwyddo’r Gymraeg i blant 0-4 oed o Gyfrifiad 2021. Roedd cyfradd trosglwyddo’r Gymraeg ar gyfer aelwydydd cwpl lle’r oedd un partner yn unig yn gallu siarad Cymraeg yn uwch lle’r oedd y partner Cymraeg ei iaith yn fenyw (45%) yn hytrach na gwryw (34%). Mae hyn yn gyson â’r patrwm a welwyd yng Nghyfrifiad 2011. Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth rhwng cyfradd trosglwyddo aelwydydd mam unigol ac aelwydydd tad unigol lle mai’r rhiant oedd yr unig oedolyn a allai siarad Cymraeg (53% ill dau).

Byddwn ni’n parhau i ddadansoddi data trosglwyddo iaith, gan gynnwys data a gesglir drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae’r prosiect BRO, arolwg

sosioieithyddol o’r Gymraeg rydym yn ei ariannu drwy Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, hefyd yn dadansoddi data ategol ar drosglwyddo’r Gymraeg rhwng y cenedlaethau.

## 2. Y blynyddoedd cynnar

### Ehangu a Chefnogi Darpariaeth

Mae ein rhaglen Sefydlu a Symud (SaS) i ehangu’r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn cael ei gweinyddu gan Mudiad Meithrin, a 2024-25 oedd seithfed flwyddyn y rhaglen. Mae SaS yn ymateb i nod ‘Cymraeg 2050’ i ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.


Yn ystod 2024/25, cefnogwyd 16 darpariaeth drwy’r rhaglen SaS – 8 ohonynt yn ddarpariaethau newydd ac 8 yn ddarpariaethau sydd wedi cael cymorth i ehangu. Mae’r arwyddion cynnar yn dangos bod y rhaglen ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o gefnogi 60 o ddarpariaethau yn ystod tymor presennol y Senedd.

Mae’r rhaglen hefyd yn cyfrannu at dargedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) awdurdodau lleol ac wedi cyfrannu at ehangu’r rhaglen Dechrau’n Deg. O ran ehangu Dechrau’n Deg, roedd 11 o’r 16 darpariaeth a gefnogwyd drwy SaS yn cynnig Dechrau’n Deg. At ei gilydd, mae Cylchoedd Meithrin yn cyfrannu at y gwaith ehangu gyda dros 2,500 o blant yn elwa ar ddarpariaeth Dechrau’n Deg yn 2024/25. Mae hyn yn cynrychioli 22% o blant sy’n mynychu Cylchoedd Meithrin ledled Cymru.

Mae Siart 2 isod yn dangos cynnydd bach yn nifer y plant a fynychodd Gylchoedd Meithrin, o 11,183 yn 2023/24 i 11,360 yn 2024/25. Mae cyfanswm yr oriau gofal wythnosol a ddarperir gan Gylchoedd Meithrin wedi gweld cynnydd blynyddol dros yr 8 mlynedd ddiwethaf, gyda 9,276 o oriau gofal yn ystod 2024/25 o’i gymharu ag 8,906 yn 2023/24. Mae’r cynnydd dros y blynyddoedd yn adlewyrchu’r ffaith fod mwy o Gylchoedd yn darparu gofal dydd llawn yn hytrach na gofal sesiynol.

Mae canran y plant sy’n trosglwyddo i addysg Gymraeg wedi aros yn gymharol sefydlog, sef 89% ar gyfer 2024/25, ac rydym yn obeithiol y bydd y tueddiad o gynnydd a welwyd cyn y cyfnod COVID-19 yn cael ei weld eto maes o law.

**Siart 2: Nifer y plant sydd wedi mynychu Cylchoedd Meithrin**




Ffynhonnell: Data Mudiad Meithrin

[Nodyn 1] Roedd Cylchoedd Meithrin ar gau rhwng mis Mawrth a Medi 2020 oherwydd pandemig COVID-19.

Fe wnaethom barhau i weithio gyda chonsortiwm gofal plant Cwlwm i fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau allweddol yn y 'Rhaglen Lywodraethu', gan gynnwys ehangu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. Cafodd Cwlwm £1,890,000 gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024-25, a darparwyd £190,000 ohono'n benodol i gefnogi gwaith i gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn unol ag uchelgeisiau 'Cymraeg 2050'.

Yn ogystal â hyn, dyrannodd Llywodraeth Cymru £1,178,000 arall i Cwlwm i gefnogi eu gwaith i weithredu ymrwymiadau'r 'Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio' gynt, fel yr oeddent yn berthnasol i ehangu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.

**Gweithlu**

Yn 2024-25 dyfarnwyd £528,000 ychwanegol i Mudiad Meithrin i barhau i gefnogi'r gwaith o recriwtio unigolion ychwanegol i ymgymryd â chymwysterau gofal plant cyfrwng Cymraeg lefel 3 a lefel 5. Mae cyllid wedi'i sicrhau i barhau â'r gwaith hwn hyd at 2026, a chynhaliwyd trafodaethau ynghylch model cyllid tymor hirach. O 2026 ymlaen, bydd y cymwysterau hyn yn cael eu hariannu drwy broses grant gystadleuol.

Roedd 80 o ddysgwyr Lefel 3, a 33 o ddysgwyr Lefel 5 wedi cychwyn eu cwrs drwy Gynllun Hyfforddiant Cam wrth Gam Mudiad Meithrin. Yn ogystal, dilynodd 106 o ddisgyblion o 11 ysgol uwchradd gwrs Cam wrth Gam Ysgolion.

O ran hyfforddiant, yn ystod 2024-25, derbyniodd 2,491 o ymarferwyr a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru hyfforddiant mewn 117 sesiwn drwy'r rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Academi.

Drwy gydweithio â chonsortiwm Cwlwm dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd cyfleoedd i ymarferwyr gofal plant ddatblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer eu gwaith, a hynny drwy raglen Camau y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae data dros dro ar gyfer 2024-25 yn dangos bod 858 o gofrestriadau ar gyrsiau wedi'u teilwra'n benodol i anghenion y sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar.

## 3. Addysg statudol

Mae ein hysgolion yn allweddol i greu siaradwyr Cymraeg y dyfodol ac mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn nodi bwriad clir i gau'r bwlch rhwng deilliannau dysgu ar draws y gwahanol gategorïau iaith – fel bod pob plentyn, waeth pa ysgol fydd yn ei mynychu, yn dod yn siaradwr annibynnol a hyderus.

Yn yr adran hon rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn targedau, dangosyddion ac ymrwymiadau addysg 'Cymraeg 2050'.

**Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025**

Cyflwynwyd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) gerbron y Senedd ar 15 Gorffennaf 2024 ac aeth ymlaen drwy gamau amrywiol proses graffu'r Senedd yn ystod y cyfnod adrodd. Pasiodd y Senedd y Bil yn unfrydol ar 13 Mai 2025 a chafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 7 Gorffennaf 2025.

Prif nod y Ddeddf yw sicrhau, erbyn 2050, bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol a hyderus, o leiaf. Yn benodol, bod pob disgybl yn cyrraedd sgiliau llafar sydd gyfystyr â lefel B2 o leiaf o'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR).

**Y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)**

Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi bod yn weithredol ers mis Medi 2022. Mae'r cynlluniau deg mlynedd hyn yn amlinellu sut y bydd awdurdodau lleol yn sbarduno newid, twf a gwelliant yn eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae pob awdurdod wedi ymrwymo i dargedau uchelgeisiol, sy'n cyd-fynd â 'Cymraeg 2050', ar gyfer cynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei haddysgu a'i hastudio yn eu hysgolion.

Gyda rhagolygon strategol ar draws saith deilliant allweddol – o'r blynyddoedd cynnar a'r ddarpariaeth gynradd i drochi, newidiadau categori iaith, prosiectau cyfalaf, darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Uwchradd, a'r gweithlu addysgu – mae'r cynlluniau hyn yn dwyn ynghyd yr elfennau sydd eu hangen i sbarduno newid ar draws y sector. Roedd y cynlluniau wedi bod ar waith am dair blynedd erbyn 2024-25, ac roedd arwyddion calonogol o gynllunio rhagweithiol ac ymwybyddiaeth strategol gan awdurdodau. Mewn cyd-destun heriol o ostyngiad mewn cyfraddau geni yn fwy cyffredinol, rydym wedi parhau i weld bod y rhan fwyaf o awdurdodau'n cynnal eu canrannau o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng

Cymraeg yn fras, ac yn gosod y sylfeini ar gyfer twf parhaus erbyn diwedd y cynlluniau.

Yn wir, ar gyfer rhai deilliannau rydym wedi gweld twf calonogol yn 2024-25, gyda 14 awdurdod lleol yn adrodd cynnydd yn nifer a/neu ganran y plant 3 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ehangu darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn arbennig o lwyddiannus, gyda naw awdurdod lleol yn adrodd cynnydd yn nifer y lleoliadau Dechrau'n Deg, ac 17 awdurdod lleol yn adrodd cynnydd yn y ddarpariaeth a'r defnydd o leoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg.

Thema arall sy'n gyson gadarnhaol yw'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran datblygiadau cyfalaf i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ystod 2024-25, mae'r prosiectau sydd wedi'u cwblhau yn cynnwys 7 ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, 7 prosiect i adnewyddu/ehangu ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli eisoes, ac 1 ganolfan trochi iaith. At ei gilydd, mae'r CSCA yn cynnwys ymrwymiadau i agor 23 ysgol Gymraeg newydd ac ehangu 25 sy'n bodoli eisoes.

Ochr yn ochr â sefydlu ysgolion newydd, dull hanfodol arall o gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw annog ysgolion i symud ar hyd y continwwm iaith gyda'r nod o newid categori iaith. Mae ymrwymiadau i newid categori iaith dros ddeugain o ysgolion ar draws Cymru yn ystod oes y CSCA. Yn 2024-25, cynhaliodd Powys broses statudol ar gynlluniau i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg pob oed yn Llanfair-ym-Muallt; newidiodd Ceredigion gyfrwng iaith 5 ysgol a oedd yn weddill i'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen mewn dosbarthiadau meithrin o fis Medi ymlaen.

Mae tystiolaeth gynyddol hefyd o gynllunio ac asesu strategol i fynd i'r afael â heriau o ran darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg ac i gasglu data a chynllunio yn unol â hynny ar gyfer cynaliadwyedd a thwf y gweithlu cyfrwng Cymraeg. Mae Awdurdodau Lleol wedi gwneud defnydd da o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn ogystal â Dangosfwrdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i adrodd ar y cyrsiau a ddilynwyd gan ymarferwyr ysgol yn eu hardaloedd, ac i dargedu'r ddarpariaeth yn fwy strategol.

Yn gyffredinol, mae'r CSCA yn parhau i fod yn adnodd hanfodol wrth gydlynu a gyrru twf strategol addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob awdurdod lleol wrth inni ddechrau ar y bedwaredd flwyddyn o weithredu, ac edrych tuag at wreiddio'r gwaith hanfodol a amlinellir ynddynt yn y paratoadau ar gyfer Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

**Y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid**

Mae 'Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-2026' a'r 'Rhaglen Lywodraethu' yn cynnwys ein hymrwymiad i ehangu'r rhaglen trochi hwyr i sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad i'r iaith yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg pan fydd ei hangen arnynt a ble bynnag y maent ar eu taith ddysgu.

Rydym yn parhau i ddarparu cyllid i gefnogi darpariaeth trochi hwyr ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r cyllid yn cefnogi darpariaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu (canolfannau neu unedau) neu sydd wedi arwain at allu sefydlu

darpariaethau trochi hwyr newydd er mwyn galluogi mwy o ddysgwyr i fod yn siaradwyr dwyieithog. Mae hyn yn gyfle gwych i bob awdurdod lleol a'u partneriaid ehangu eu darpariaethau trochi cyfrwng Cymraeg hwyr yn eu hysgolion a'u canolfannau trochi.

Mae'r grant yn cefnogi dros 60 o staff arbenigol ledled Cymru ac mae wedi galluogi dros 3,500 o ddysgwyr i gael cymorth trochi hwyr yn ystod y flwyddyn. Yn wir, ers sefydlu'r grant yn 2021, mae dros 8,000 o ddysgwyr wedi elwa ar raglenni trochi hwyr – bron i hanner ohonynt yn gwbl newydd i'r Gymraeg. Mae'r cyllid hefyd yn cynnwys cymorth dwys i ddysgwyr sydd angen atgyfnerthu eu sgiliau Cymraeg.

Rydym hefyd yn hwyluso rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr trochi, staff awdurdodau lleol ac ymchwilwyr, gan rannu'r arferion gorau a chefnogi datblygiad parhaus addysg drochi ledled Cymru. Fe wnaethom gynnal dwy sesiwn yn ystod y flwyddyn gyda dros 40 o ymarferwyr trochi hwyr a swyddogion awdurdod lleol o bob cwr o Gymru er mwyn rhannu'r arferion gorau.

**Cyllid cyfalaf**

Ers sefydlu'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg yn 2018, rydym wedi buddsoddi dros £128m mewn prosiectau cyfalaf cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Mae'r cyllid yn cefnogi awdurdodau lleol i wireddu eu hymrwymiadau yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) drwy fuddsoddi er mwyn gwella darpariaeth, ehangu neu sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd. Bydd y prosiectau cyfalaf y byddwn yn eu hariannu yn gwneud cyfraniad sylweddol i addysg Gymraeg ledled Cymru gan hefyd hybu'r Gymraeg yn lleol.

Ers dechrau'r CSCA 10 mlynedd, mae buddsoddiad Band B a'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi cefnogi 56 o brosiectau i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru. Mae 17 o ysgolion newydd wedi agor neu wedi'u hail-leoli i gynyddu eu capasiti i dderbyn mwy o ddysgwyr. Mae 39 prosiect i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'u cwblhau hefyd.

Yn ystod 2024-25, cafodd chwe ysgol cyfrwng Cymraeg newydd eu hagor neu eu hail-leoli gyda chapasiti ychwanegol:

- Ysgol Cwm Gwyddon, Caerffili
- Ysgol Awel Taf, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Llyn y Forwyn, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Bro Penfro, Sir Benfro
- Ysgol Treferthyr, Gwynedd
- Ysgol Dyffryn Aeron, Ceredigion

Cafodd un egin ysgol newydd ei sefydlu:

- Ysgol Trefynwy, Sir Fynwy.

Cafodd saith prosiect adnewyddu/ehangu eu cwblhau:

- Ysgol Gymraeg Bro Allta, Caerffili
- Ysgol Ifor Bach, Caerffili

- Ysgol y Graig, Ynys Môn
- Uned gofal plant Ysgol y Graig, Ynys Môn
- Uned gofal plant Ysgol Llanfawr, Ynys Môn
- Ysgol Bro Lleu, Gwynedd
- Cylch Meithrin Llanfair T.H, Conwy

Cafodd un canolfan drochi ei hagor:

- Canolfan Iaith Tywyn, Gwynedd

Mae cyflawni cam nesaf y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cyd-fynd â chyflawni'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd.

**Cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg**

Mae cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o amcanion allweddol 'Cymraeg 2050'.

Mae data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (2025), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025, yn dangos cynnydd bach o ran dysgwyr oedran Dosbarth Derbyn sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, o 23.6% yn 2023/24 i 23.8% yn 2024/25. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag nad yw'r data ar gyfer dysgwyr dosbarth derbyn yn gyflawn gan nad yw'n statudol i ysgolion adrodd ar gyfrwng addysg dysgwyr sy'n iau na phum mlwydd oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r data yn dangos gostyngiad bach o ran dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, o 24.3% yn 2023/24 i 24.0% yn 2024/25. Yn 'Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26', rydym wedi ymrwymo i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu yn Gymraeg i 26% erbyn 2026.

Mae Tabl 1 isod yn dangos, yn 2011/12, bod 7,300 o ddysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, a 7,870 erbyn 2024/25. Mae'r 570 yn fwy o ddysgwyr gyfystyr â 19 o ddosbarthiadau newydd o 30 o blant. Mae canran y dysgwyr Blwyddyn 2 sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf hefyd wedi cynyddu o 22.2% yn 2011/12 i 24.1% yn 2024/25.


## Tabl 1: Nifer a chanran y plant sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn Nosbarth Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, (2012-2024)

| | Meithrin | | Dosbarth Derbyn | | Blwyddyn 1 | | Blwyddyn 2 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| 2011/12 | 7,510 | 21.1% | 8,160 | 23.8% | 7,670 | 23.1% | 7,300 | 22.2% |
| 2012/13 | 7,010 | 20.1% | 8,290 | 23.3% | 7,830 | 23.0% | 7,550 | 22.7% |
| 2013/14 | 7,460 | 20.6% | 7,980 | 23.0% | 8,100 | 22.8% | 7,650 | 22.5% |
| 2014/15 | 7,540 | 20.6% | 8,250 | 23.3% | 7,860 | 22.7% | 7,990 | 22.4% |
| 2015/16 | 7,630 | 20.9% | 8,290 | 23.0% | 8,110 | 23.0% | 7,760 | 22.3% |
| 2016/17 | 7,650 | 21.4% | 8,330 | 23.5% | 8,120 | 22.6% | 7,950 | 22.5% |
| 2017/18 | 7,630 | 21.6% | 7,970 | 23.2% | 8,300 | 23.3% | 8,100 | 22.5% |
| 2018/19 | 7,720 | 22.0% | 7,790 | 23.1% | 8,060 | 23.4% | 8,190 | 23.0% |
| 2019/20 | 7,880 | 22.9% | 7,900 | 23.5% | 7,850 | 23.3% | 7,970 | 23.1% |
| 2020/21 | 8,580 | 23.0% | 7,900 | 23.8% | 7,900 | 23.4% | 7,700 | 22.8% |
| 2021/22 | 7,560 | 22.5% | 7,540 | 23.3% | 8,010 | 23.9% | 7,840 | 23.1% |
| 2022/23 | 7,200 | 22.4% | 7,630 | 23.8% | 7,690 | 23.4% | 7,960 | 23.4% |
| 2023/24 | 7,050 | 22.9% | 7,280 | 23.6% | 7,900 | 24.3% | 7,660 | 23.2% |
| 2024/25 | 7,380 | 24.3% | 7,120 | 23.8% | 7,440 | 24.0% | 7,870 | 24.1% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

[Nodyn 1] Noder nad oes yn rhaid i ysgolion adrodd ar nifer y plant sydd yn astudio'r Gymraeg sydd yn iau na phum oed ar 31 Awst ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae hyn yn golygu nad yw'r wybodaeth yn gyflawn ar gyfer plant Dosbarth Meithrin a Derbyn.

## Siart 3: Canran y disgyblion Blwyddyn 2 (7 oed) sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf





Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Casgliad Data Cenedlaethol o asesiadau athrawon

Parhaodd canran y dysgwyr Blwyddyn 7 a oedd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn 19.8% yn 2024/25, fel yr oedd yn 2023/24. Oherwydd y gostyngiad yn y niferoedd yn y grŵp blwyddyn hwn, mae hyn tua 225 yn llai o ddysgwyr.

Rydym hefyd yn monitro cyfran y dysgwyr Blwyddyn 9 (14 oed fel arfer) sy'n cael eu hasesu'n Gymraeg (iaith gyntaf). Mae'r gyfran hon wedi cynyddu dros amser o 17.0% yn 2011/12 i 18.8% erbyn 2024/25 – gweler Siart 4 isod. Unwaith eto, gan nad oes asesiadau athrawon wedi bod ar gael ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2 (oedran gorffen yr ysgol gynradd) nac ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9 yr ysgol uwchradd) yn gyson, rydym yn defnyddio canran y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Fel ag yn achos Siart 3 uchod, mae Siart 4 isod hefyd yn cynnwys y ddwy ffynhonnell ochr yn ochr er mwyn dangos cysondeb cyffredinol y data.

### Siart 4: Canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3 sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf





Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Casgliad Data Cenedlaethol o asesiadau athrawon

Mae Siart 4 uchod yn dangos, yn ôl cyfrifiad ysgolion blwyddyn academaidd 2024/25, bod 21.4% o ddysgwyr ar ddiwedd ysgol gynradd a 18.8% o ddysgwyr Blwyddyn 9 mewn ysgol uwchradd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r canrannau hyn wedi cynyddu ychydig ers 2011/12. Fodd bynnag, mae'r ganran sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 yn parhau i fod yn is na'r ganran yng Nghyfnod Allweddol 2 dair blynedd ynghynt (er enghraifft, gan gymharu Cyfnod Allweddol 2 yn 2021/22 â Chyfnod Allweddol 3 yn 2024/25).

Fodd bynnag, mae disgwyl i awdurdodau lleol barhau i wella dilyniant ieithyddol rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd i sicrhau bod ein dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo i addysg uwchradd, a bod nifer y dysgwyr sy'n newid i ddilyn y llwybr Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 yn gostwng. Mae gofyn i CSCA awdurdodau nodi sut y byddant yn sicrhau bod dysgwyr a addysgir yn Gymraeg yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall, a chynllunio yn unol â hynny os yw'r cyfraddau dilyniant yn destun pryder. Byddwn yn monitro cynnydd awdurdodau lleol ar weithrediad eu CSCA yn flynyddol.

**Siart 5: Canran disgyblion Blwyddyn 11 sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TGAU yn y Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith)**




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)


[Nodyn 1] Cafodd TGAU Cymraeg Ail Iaith ei diwygio i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2017 gan ddisodli'r cyrsiau llawn a byr TGAU a fodolai, sy'n esbonio rhywfaint o'r cynnydd mewn Cymraeg ail iaith a welir yn y data.

[Nodyn 2] O 2015/16, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Hyd at 2014/15, mae'r garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 33% o bobl ifanc 16-17 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Mae cynnydd wedi bod yng nghanran y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith (cwrs llawn) ers 2008/09, fel y gwelir yn Siart 5 uchod. Mae Siart 5 hefyd yn dangos bod 80% o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2024/25 (18% Cymraeg iaith gyntaf, a 62% Cymraeg ail iaith). Mae hyn wedi cynyddu dros y degawd diwethaf o 70% yn 2008/09 (14% Cymraeg iaith gyntaf, a 56% ail iaith) – noder fod y ganran hon yn cynnwys dysgwyr a oedd wedi cofrestru ar gyfer cwrs byr ail iaith, sydd ddim ar gael erbyn hyn.

**Siart 6: Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau neu bump cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg**




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

[Nodyn 1] Yn sgil canslo arholiadau cyhoeddus, dyfarnwyd holl gymwysterau (a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau fel arfer) yn nhymor yr haf 2020/21 ar sail model gradd a bennir gan y ganolfan unigol. Hynny yw, penderfynwyd ar raddau a chymwysterau'r disgyblion gan ysgolion a cholegau. Dyfarnwyd yn seiliedig ar asesiadau o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth megis asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

[Nodyn 2] Bydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 raddau a gyflawnwyd wrth sefyll arholiad ysgrifenedig, nid gradd a ddyfarnwyd iddynt gan ganolfan.

[Nodyn 3] Roedd cyfnod arholiadau 2021/22 yn flwyddyn drosiannol, lle dychwelodd cymwysterau perthnasol a eisteddai gan ddisgyblion Cymru i arholiad ysgrifenedig. Nid oedd hyn yn golygu dychwelyd yn llwyr i drefniadau arholi cyn y pandemig. I wneud iawn am unrhyw darfu ar amserlen yr ysgol, cafodd disgyblion a safodd arholiadau yn 2021/22 ddewis ehangach o gwestiynau o'r maes llafur, gyda Cymwysterau Cymru yn gosod canlyniadau hanner ffordd yn fras rhwng 2018/19 (y tro diwethaf i arholiadau gael eu cynnal) a chanlyniadau 2020/21.

Mae Siart 6 uchod yn dangos bod 84.5% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2024/25 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 65.6% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2024/25 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu'n sylweddol ers 2013/14 ac mae'n rhagori ar y targed o 65% erbyn 2021, ond mae data mwy diweddar yn dangos tuedd am i lawr.

**Hyrwyddo Addysg cyfrwng Cymraeg**

Mae hyrwyddo addysg Gymraeg yn un o amcanion y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Rydym wedi parhau i roi cyllid i Fenter Caerffili i gyflogi Pencampwr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y De-ddwyrain i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn codi proffil a hyrwyddo darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth.

Mae'r uchafbwyntiau hyd yma yn cynnwys: cynnydd sylweddol o ran gweithio mewn partneriaeth ar draws awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ac o ran rhannu gwybodaeth ac arferion da, cynhadledd flynyddol i ddathlu gwaith y bartneriaeth Pencampwr Hyrwyddo a rhannu arferion da ymhellach, yn ogystal â chreu cyfres o astudiaethau achos fideo i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg gyda ffocws ar anghenion dysgu ychwanegol, pontio rhwng cyfnodau addysg, a denu teuluoedd o bob cefndir i addysg cyfrwng Cymraeg.

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol gyntaf y cynllun hwn ym mis Mawrth 2024. Roedd dros 70 o gynrychiolwyr yn bresennol, gan gynnwys Arweinwyr Cynghorau, aelodau Cabinet, swyddogion Awdurdodau Lleol, a rhanddeiliaid gan gynnwys y Mentrau Iaith, Mudiad Meithrin a Rhieni dros Addysg Gymraeg.

Bydd y rhaglen hon yn cael ei hehangu'n genedlaethol yn ystod 2025-26 drwy Mentrau Iaith Cymru.

## 4. Addysg drydyddol

Mae addysg a hyfforddiant wrth galon ein gweledigaeth i ddatblygu a chynnal y Gymraeg. Mae sicrhau dilyniant ieithyddol o addysg statudol i bob elfen o addysg drydyddol a hyfforddiant yn hanfodol bwysig, fel y mae darparu cyfleoedd ac anogaeth i bobl ifanc ac oedolion ddysgu Cymraeg a pharhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a'u hannog i wneud hynny.

Rydym yn canolbwyntio ar greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i fwy o bobl ifanc sy'n ymuno â'r gweithle allu gweithio'n ddwyieithog. Rydym hefyd am barhau i ddatblygu system effeithiol fel sylfaen gadarn i oedolion a phobl ifanc gael dysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau Cymraeg.

Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sydd bellach yn gyfrifol am ariannu a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16. Mae gan Medr rôl hollbwysig yn ehangu'r arlwy cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym maes addysg drydyddol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi ym mis Chwefror 2024. Roedd hyn yn cynnwys blaenoriaeth strategol i Medr ddatblygu cynllun i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth a'r gwaith o hyrwyddo addysg ac asesiadau cyfrwng Cymraeg yn y system drydyddol gyfan.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd wedi cael ei ddynodi gan Weinidogion Cymru i ddarparu cyngor i Medr i'w helpu i gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod blwyddyn 2024-25, llofnododd Medr a'r Coleg femorandwm cyd-ddealltwriaeth, gan ffurfioli'r berthynas hon a nodi sut byddant yn cydweithio i gyflawni eu nodau cyffredin.

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd y Coleg ei gyngor cyntaf ar gyfer Medr, a oedd yn adlewyrchu'r uchelgais gyffredin i annog y galw am addysg drydyddol wedi'i darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad yn hynny.


**Cymraeg fel Pwnc**

Rydym am weld mwy o ddysgwyr yn astudio'r iaith ar lefel Safon Uwch ac ar lefel gradd, er mwyn inni allu creu'r genhedlaeth nesaf o academyddion, athrawon a gweithwyr dwyieithog mewn sectorau allweddol lle mae angen sgiliau iaith lefel uwch.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae Siart 5 uchod yn dangos cynnydd yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 11 sydd wedi cofrestru ar gyfer TGAU yn y Gymraeg ers 2008/09. Mae'r canrannau hyn yn cynnwys disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith. Yn anffodus, nid yw'r cynnydd yn y ganran ar lefel TGAU yn cael ei adlewyrchu yn y niferoedd sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch.

Rydym yn monitro hyn drwy edrych ar faint o ddysgwyr sydd wedi cofrestru i astudio Cymraeg Safon Uwch fel canran o'r rhai a wnaeth gofrestru i astudio TGAU Cymraeg ddwy flynedd cyn hynny.

**Siart 7: Cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg TGAU ddwy flynedd yn gynharach, iaith gyntaf ac ail iaith**




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYLBD)

[Nodyn 1] Yn sgil canslo arholiadau cyhoeddus, dyfarnwyd holl gymwysterau (a fyddai wedi cael eu sefyll fel arholiadau fel arfer) yn nhymor yr haf 2020/21 ar sail model gradd a bennir gan y ganolfan unigol. Hynny yw, penderfynwyd ar raddau a chymwysterau y disgyblion gan ysgolion a cholegau. Dyfarnwyd yn seiliedig ar asesiadau o waith dysgwyr, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth megis asesiadau heblaw arholiadau, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

[Nodyn 2] Bydd gan ddisgyblion y dyfarnwyd cymhwyster iddynt cyn cyfres arholiadau haf 2020 raddau a gyflawnwyd wrth sefyll arholiad ysgrifenedig, nid gradd a ddyfarnwyd iddynt gan ganolfan.

[Nodyn 3] Roedd cyfnod arholiadau 2021/22 yn flwyddyn drosiannol, lle dychwelodd cymwysterau perthnasol a eisteddai gan ddisgyblion Cymru i arholiad ysgrifenedig. Nid oedd hyn yn golygu dychwelyd yn llwyr i drefniadau arholi cyn y pandemig. I wneud iawn am unrhyw darfu ar amserlen yr ysgol, cafodd disgyblion a safodd arholiadau yn 2021/22 ddewis ehangach o gwestiynau o'r maes llafur, gyda Cymwysterau Cymru yn gosod canlyniadau hanner ffordd yn fras rhwng 2018/19 (y tro diwethaf i arholiadau gael eu cynnal) a chanlyniadau 2020/21.

Mae Siart 7 uchod yn dangos dilyniant dysgwyr yn symud o TGAU i Safon Uwch. Erbyn y flwyddyn academaidd 2024/25, roedd 3.1% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd ynghynt yna wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf. Mae'n dangos hefyd bod 0.8% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith ddwy flynedd ynghynt wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg ail iaith.

Mae canran y cofrestriadau TGAU Cymraeg sydd hefyd yn cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf ac ail iaith) yn parhau i ostwng. Mae'r niferoedd sy'n astudio Saesneg ac ieithoedd tramor modern Safon Uwch hefyd wedi gostwng yn sylweddol – nid yw'n unigryw i'r Gymraeg. Noder nad yw'r 80% o ddysgwyr Blwyddyn 11 y cyfeirir atynt yn Siart 5 uchod (a oedd wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith yn 2024/25) wedi gorffen astudio cyrsiau Safon Uwch eto. Bydd rhaid aros nes bydd data 2025/26 a 2026/27 ar gael i ddangos y gwir sefyllfa ar hyn o bryd o ran y niferoedd sy'n trosglwyddo o

TGAU i Safon Uwch. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod disgyblion yn dilyn y llwybr TGAU sydd fwyaf addas iddyn nhw.

Rydym yn parhau i ariannu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch ac i ddarparu grantiau i helpu ysgolion i gynnal dosbarthiadau Safon UG a Safon Uwch lle mae'r niferoedd sy'n astudio'r pwnc yn isel.


Yn ystod 2024/25, dyrannodd y Coleg 86 o grantiau i helpu ysgolion a cholegau addysg bellach i ddarparu Cymraeg fel Pwnc. Hefyd, fe wnaeth y Coleg ymweld ag ysgolion ledled Cymru i hyrwyddo'r pwnc a chynhaliodd ei Ysgol Haf gyntaf i roi cyfle i fyfyrwyr baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol, cael profiad o fyw a gweithio'n ddwyieithog, a chael blas ar astudio Cymraeg yn y brifysgol.

Un o ofynion y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yw bod yn rhaid i awdurdodau lleol nodi sut y maent yn gweithio gydag ysgolion i gydlynu'r gwaith o ddarparu Cymraeg fel pwnc ym mlwyddyn 10 ac uwch. Er bod y niferoedd sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch mewn ysgolion yn isel mewn rhai ardaloedd, ac ysgolion weithiau'n cael trafferth parhau i gynnig y pwnc, mae llawer o awdurdodau wedi adrodd eu bod wedi gweithio ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, awdurdodau cyfagos ac amrywiol bartneriaethau eraill yn 2024/25 i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc, ynghyd â'i manteision o ran gyrfa a chyflogaeth. Mae enghreifftiau o fentrau yn 2024/25 yn cynnwys sefydlu rhwydweithiau cymorth ar gyfer Penaethiaid y Gymraeg, lansio strategaethau newydd a grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n blaenoriaethu hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc, cynnal digwyddiadau 'Pam Cymraeg?' a rhannu adnoddau hyrwyddo. Gall y ddarpariaeth gan e-sgol hefyd gynnig datrysiad mewn llawer o achosion gan ei bod yn caniatáu i ysgolion greu clystyrau lleol i alluogi mwy o ddisgyblion i barhau i astudio'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch. Mae gwaith parhaus awdurdodau lleol i hyrwyddo a chydlynu darpariaeth y Gymraeg fel pwnc yn cael ei fonitro'n ofalus fel rhan o ganlyniadau'r CSCA yn eu hadroddiadau blynyddol, ac mewn trafodaethau rheolaidd.

### Addysg bellach a phrentisiaethau

Rydym yn awyddus i weld cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-16. Mae Siart 8 isod yn dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ôl y math o ddarparwr.

### Siart 8: Canran y gweithgareddau addysg ymgymerwyd â hwy gan ddysgwyr 19 oed neu iau sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y math o ddarparwr ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd




Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR); Casgliad Ôl-16

[Nodyn 1] Mae "cyfrifion" yn eithrio cymwysterau Cymraeg, er enghraifft, TGAU Cymraeg, Safon Uwch Cymraeg, Cymraeg i Oedolion.

[Nodyn 2] Nid yw'r "cyfrifion" yn cynnwys nodau dysgu lefel Addysg Uwch.

[Nodyn 3] Pennir y math o ddarparwr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith yn ddibynnol ar y prif ddarparwr yn cyflwyno'r dysgu. Mae hyn yn wahanol i sail aelodau'r consortiwm a ddefnyddir mewn ystadegau a gyhoeddir mewn mannau eraill.

[Nodyn 4] Mae dysgu'n seiliedig ar waith yn cynnwys Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau. Mae darpariaeth Twf Swyddi Cymru+ (TSW+) wedi'i heithrio. Mae ystadegau TSW+ yn cael eu hadrodd ar sail blwyddyn ariannol, ar wahân i fathau eraill o ddarpariaeth a gesglir drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Daeth hyfforddeiaethau i ben ar 31 Mawrth 2022 gyda TSW+ yn dod i rym ar gyfer dechreuwyr newydd ar 1 Ebrill 2022.

Fel y gwelir yn Siart 8 uchod, roedd canran y gweithgareddau dysgu sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn sefydliadau addysg bellach ac yn y sector dysgu seiliedig ar waith wedi parhau i gynyddu yn 2023/24. Mae'r cynnydd hwn wedi'i ysgogi'n bennaf gan gynnydd yn nifer y gweithgareddau dwyieithog a ddarperir yn y sectorau hyn ac mae'n debygol bod hyn hefyd yn cynnwys rhai gweithgareddau sy'n datblygu a chynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr. Nid yw nifer y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion wedi newid llawer dros yr un cyfnod, sef 21%.

Ers cyhoeddi 'Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg' y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Rhagfyr 2018), mae'r Coleg wedi cefnogi nifer o brosiectau strategol gyda 83 grant yn cael eu dyfarnu i golegau a 32 grant i ddarparwyr prentisiaeth yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Roedd y prosiectau hyn yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth, fel iechyd a gofal, gofal plant, gwasanaethau cyhoeddus, chwaraeon ac astudiaethau ar y tir.

O ganlyniad, cyllidwyd 126 o ymarferwyr mewn colegau addysg bellach a gyda darparwyr prentisiaethau yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 i gefnogi darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sefydliadau hyn.

Mae'r cynllun Llysgenhadon Dysgwyr i'r sector ôl-16 hefyd yn mynd o nerth i nerth. Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, roedd 56 o lysgenhadon yn hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg i'w cyfoedion ledled Cymru, gan gynorthwyo darparwyr i fagu hyder dysgwyr yn eu Cymraeg ac i gynnig cyfleoedd i sgwrsio a deall pwysigrwydd siarad yr iaith, yn enwedig yn y gweithle.

Mae hyfforddiant i diwtoriaid/ymarferwyr yn allweddol wrth fynd ati i ehangu'r ddarpariaeth. Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, cefnogwyd dros 600 o staff o dan Raglen Datblygu Staff Genedlaethol Sgiliaith. Yn ystod yr un cyfnod, cefnogwyd 56 aelod o staff i fagu hyder yn y Gymraeg a'u galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd drwy Raglen Fentora Genedlaethol i'r sector ôl-16.

Erbyn diwedd 2024/25, roedd 540 aelod o staff wedi ymuno â Chynllun Gwreiddio'r Coleg ar gyfer y gweithlu ôl-16, sy'n ceisio adeiladu cymuned i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Addysg uwch

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi prifysgolion i ddatblygu modiwlau a chyrsiau yn Gymraeg ac yn ddwyieithog drwy grantiau ar y cyd â'r sefydliadau, yn hytrach nag ariannu swyddi darlithwyr, sy'n gwreiddio'r ddarpariaeth fel rhan annatod o'r arlwy. Bellach, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael ar draws 25 maes pwnc.


Yn 2024/25, dyfarnodd y Coleg 63 o grantiau i sefydliadau addysg uwch i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Hefyd dyfarnodd 10 ysgoloriaeth ymchwil newydd ar draws ystod o bynciau academaidd, gyda 31 ysgoloriaeth ymchwil yn parhau dan nawdd y Coleg.

Mae staff prifysgol yn cael cefnogaeth drwy raglen hyfforddiant staff academaidd y Coleg hefyd, sy'n cynnwys hyfforddi wyneb yn wyneb, dysgu o bell a gweithdai.

Gostyngodd nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2023/24 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, gyda'r rhan fwyaf o'r gostyngiad yn cael ei briodoli i un Brifysgol a newid yn y ffordd y casglwyd y data hwn. Disgwylir y bydd ansawdd y data hwn yn gwella eto yn y dyfodol.

Arhosodd nifer y staff addysgu dan gontract i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar yr un lefel yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23. Roedd 64% o'r staff addysgu yr ydym yn gwybod eu bod yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'u contractio i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2023/24. Mae hyn yn uwch o'i gymharu â blynyddoedd cynharach, ond mae un Brifysgol wedi newid ei ffordd o gofnodi'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, sydd wedi effeithio ar hyn hefyd.

## Siart 9: Cofrestriadau mewn sefydliadau addysg uwch gan fyfyrwyr yng Nghymru gydag addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

[Nodyn 1] Mae myfyrwyr yng Nghymru yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi cofrestru yng nghanolfan genedlaethol Cymru'r Brifysgol Agored.

Gostyngodd nifer y cofrestriadau gydag o leiaf 1 credyd wedi'i astudio yn Gymraeg rhwng 2022/23 a 2023/24. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn debygol o fod yn fwy cysylltiedig â newidiadau yn y ffordd y cofnododd darparwyr eu darpariaeth yn ystod 2023/24 na newidiadau gwirioneddol yn nifer y cofrestriadau sy'n astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg.

Roedd gostyngiad hefyd yn nifer y cofrestriadau gyda nifer uwch o gredydau'n cael eu hastudio yn Gymraeg yn 2023/24, ar wahân i'r rhai sy'n astudio o leiaf 120 credyd yn Gymraeg a oedd ychydig yn uwch yn 2023/24 na 2022/23, ond yn is o'i gymharu â blynyddoedd cynharach.

Addysg ac addysgu oedd y pwnc modiwl gyda'r nifer a'r gyfran uchaf o gofrestriadau yn astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg: gan gyfrif am bron i chwarter (24%) o'r holl gofrestriadau. Y nesaf oedd Dylunio a'r Celfyddydau Creadigol a Pherfformio gydag 13% o'r cofrestriadau yn astudio o leiaf 1 credyd.

**Dysgu Cymraeg**

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) yn 2015 er mwyn cydlynu darpariaeth a chynnig arweiniad i'r maes dysgu Cymraeg. Creu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n hyderus yn defnyddio eu sgiliau newydd yw nod y Ganolfan, a drwy hynny, cyfrannu at wireddu'r uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu defnydd dyddiol o'r iaith.

Mae data blwyddyn academaidd 2023/24 yn dangos bod gan y Ganolfan 18,330 o ddysgwyr unigryw yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r data hefyd yn dangos y canlynol:

- Roedd y Ganolfan wedi darparu 31,200 o weithgareddau dysgu yn ystod 2023/24.
- Roedd 61% o ddysgwyr ar lefel Mynediad (dyma'r lefel gychwynnol i ddechreuwyr).
- Roedd 13% ar lefel Sylfaen a 25% ar lefelau Canolradd ac uwch (gan gynnwys Hyfedredd).
- Roedd 69% o'r dysgwyr rhwng 25 a 64 oed, 16% dros 65 oed, ac 14% rhwng 16-24 oed.

Ers mis Medi 2022, mae'r Ganolfan wedi bod yn cyflawni'r cynllun Ymlaen Gyda'r Dysgu, sy'n cynnig gwersi Cymraeg am ddim i bobl 16-25 oed. Mae gwersi am ddim ar gael i'r gweithlu addysg – boed yn benaethiaid, yn athrawon neu'n gynorthwywyr addysgu er mwyn cefnogi ein hymdrechion i gynyddu'r gweithlu sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod 2024-25, roedd cynlluniau'r Ganolfan ar gyfer Pobl Ifanc yn canolbwyntio ar ddarpariaeth i bobl ifanc 16-18 oed mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, ac ar raglenni prentisiaeth.

Mae data dros dro ar gyfer 2024-25 yn dangos bod 980 o ddysgwyr wedi cwblhau un o gyrsiau pwrpasol y Ganolfan ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed, gyda 776 arall o ddysgwyr 18-25 oed wedi dilyn cyrsiau prif ffrwd am ddim mewn lleoliadau cymunedol. Hefyd dilynodd 198 o ddysgwyr un o gyrsiau'r Ganolfan wedi'i deilwra ar gyfer y sector addysg uwch.

Yn ystod 2024-25, datblygodd y Ganolfan raglen genedlaethol o ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar gyfer y Gweithlu Addysg statudol. Roedd y rhaglen ar gyfer 2024-25 yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyrsiau i gynorthwywyr addysgu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion.
- Cyrsiau magu hyder i ymarferwyr ysgolion sydd am ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y dosbarth.
- Cyrsiau gloywi i bobl ifanc sydd ar fin dechrau cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon.
- Cyrsiau hunan-astudio i staff ysgolion uwchradd.
- Darpariaeth bwrpasol i ymarferwyr Addysg Gorfforol yn y sector uwchradd.

Cafodd 790 o ymarferwyr addysg gymorth o dan y rhaglen yn 2024-25. Bydd y Ganolfan yn parhau i ehangu ei rhaglen ar gyfer 2025-26 ac o fis Medi ymlaen bydd hefyd yn rheoli'r cyrsiau dwys sydd ar gael drwy'r Cynllun Sabothol.

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan yn darparu cyrsiau Dysgu Cymraeg i'r gweithle, gan gynnwys cyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein, cyrsiau gyda thiwtoriaid a chyrsiau preswyl dwys. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 6, Y gweithle, isod.

## 5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

Mae cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r newidiadau trawsnewidiol a nodir yn 'Cymraeg 2050'. Er mwyn gallu gweld twf yn nifer y disgyblion mewn addysg Gymraeg, mae angen sicrhau gweithlu digonol i'w haddysgu ac mae hyn yn gallu bod yn heriol.

Yn 'Cymraeg 2050', rydym wedi gosod y nodau canlynol erbyn 2031:

- 3,900 o athrawon cynradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4,100 o athrawon uwchradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 yn dangos bod: 2,678 o athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 2,458 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffigurau hyn yn dangos gostyngiad bach ers 2023/24 – gweler Siart 10 isod.

Mae denu nifer digonol o athrawon i addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n her. Aethpwyd ati i barhau i weithredu nifer o'r camau a nodir yng 'Nghynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg' fel y ganlyn:

- Ariannwyd 26 lle i athrawon cynradd sydd am newid i fod yn athrawon uwchradd drwy'r Cynllun Pontio.
- Dyfarnwyd cyllid i 46 o brosiectau drwy'r grant ar gyfer datblygu capasiti'r gweithlu cyfrwng Cymraeg i ysgolion, gwerth dros £950,000. Mae'r cyllid yn helpu ysgolion i ddatblygu ffyrdd arloesol o ddatrys rhai o'u heriau recriwtio.
- Fe wnaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol barhau i weithredu Cadw Cyswllt sy'n hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr yn Lloegr ddychwelyd i Gymru i baratoi i addysgu, a'r prosiect Addysgu'r Dyfodol i fentora is-raddedigion i ystyried symud ymlaen i fod yn athrawon.
- Roedd y Coleg hefyd wedi cyflawni gweithgareddau i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg ar lefel Safon Uwch ac sy'n mynd ymlaen i'r brifysgol. Mae hyn yn bwysig ar gyfer y cyflenwad o athrawon Cymraeg yn y dyfodol. Yn 2024-25, ymwelodd y prosiect â 29 o ysgolion a siarad â 2,000 o ddisgyblion.
- Dyfarnwyd bwrsari i gadw athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd i 109 o athrawon. Byddwn yn monitro a ydynt yn aros yn y system dros y blynyddoedd nesaf.


Fe wnaethom gynyddu'r cyllid i'r Gymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg i wella ei gallu strategol i gefnogi'r sector cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd, ar sail dealltwriaeth yr ysgolion sy'n aelodau o heriau a gofynion unigryw'r sector. Bydd gwaith y Gymdeithas yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog hefyd.

Mae cynllun cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yn rhoi grant o £5,000 i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â rhaglen addysg gychwynnol ôl-raddedig i athrawon uwchradd, sydd naill ai'n cael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n galluogi'r myfyriwr i addysgu Cymraeg fel pwnc. Mae hyn yn ychwanegol at y grantiau sydd ar gael drwy'r cynlluniau cymhelliant Pynciau â Blaenoriaeth a chymunedau Ethnig Leiafrifol.

Rydym yn parhau i gefnogi athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ac i'w haddysgu. Ym mis Chwefror 2023, dechreuodd swyddog cenedlaethol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn gweithio gyda'r consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a darparwyr y cynllun sabothol, i gynllunio a datblygu rhaglen gydlynol i ymarferwyr ddysgu Cymraeg. Ers mis Medi 2024, mae 2,000 o ymarferwyr wedi cofrestru ar gyrsiau ar-lein, cyrsiau hunan-addysgu neu gyrsiau wyneb yn wyneb i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r Ganolfan hefyd wedi bod yn gweithio gyda darparwyr addysg gychwynnol i athrawon i ddarparu adnoddau i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wrth hyfforddi. Mae'r rhain bellach wedi cael eu rhannu â phob darparwr ac wedi cael eu cynnwys mewn cyrsiau ers mis Medi 2024.

### Siart 10: Nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

## Y gweithlu ôl-16

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn arwain ar ddatblygu'r gweithlu ôl-16 ac mae ganddo nifer o gynlluniau hyfforddi ar waith i ddatblygu sgiliau iaith ac addysgeg staff, yn amrywio o'r rhai sy'n hyderus yn eu sgiliau Cymraeg i staff sy'n cychwyn ar eu taith i ddysgu'r Gymraeg.

Mae ein cyllid i'r Coleg yn cefnogi cynlluniau'r Coleg, gan gynnwys Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol Sgiliaith, a'r Rhaglen Datblygu Staff Academaidd, y Cynllun Gwreiddio. Mae'r Coleg hefyd yn ariannu ysgoloriaethau ymchwil PhD sy'n cynyddu capasiti sefydliadau addysg uwch i gynnig cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Coleg yn darparu cefnogaeth i bartneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon yn ogystal â chynnal dau brosiect penodol i ddatblygu hyder myfyrwyr er mwyn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ddenu myfyrwyr yn ôl i Gymru i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, derbyniodd y Coleg gyllid ychwanegol yn 2024-25 i redeg cynllun mentora i gryfhau ac annog sgiliau Cymraeg myfyrwyr ar gyrsiau Tystysgrif Addysg i Raddedigion addysg bellach ym mhrifysgolion Cymru.

Mae ein cyllid i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi ystod o ymyriadau ar gyfer y gweithlu ôl-16, gan gynnwys y cynllun Cymraeg Gwaith a ddarperir ar y cyd â'r Coleg er mwyn datblygu sgiliau iaith tiwtoriaid a darlithwyr yn y sectorau addysg bellach ac addysg uwch. Yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25, dilynodd 971 o gyflogeion gyrsiau Cymraeg Gwaith, gyda 9 prifysgol ac 11 coleg addysg bellach wedi ymrwymo i'r cynllun.

## Adnoddau addysg

Ar 1 Ebrill 2023, sefydlwyd corff Adnodd i gefnogi ysgolion ac ymarferwyr i greu adnoddau sy'n cefnogi eu cwricwlwm lleol wrth i ysgolion gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Yn ystod 2024-25, ei flwyddyn weithredol lawn gyntaf, lansiodd Adnodd ei Strategaeth gyntaf (2025-2028), gan nodi gweledigaeth ar gyfer mynediad teg at adnoddau dwyieithog o ansawdd uchel a chysoni ei genhadaeth â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, llesiant a hanes Cymru. Cyflwynodd Adnodd fodel comisiynu newydd, adeiladodd dîm ymroddedig, a datblygodd bartneriaethau cryf gyda rhanddeiliaid allweddol fel Estyn, Cymwysterau Cymru, Medr, a chyrff diwylliannol. Hefyd, cyflawnodd amrywiol elfennau gwaith ychwanegol i gefnogi'r sector, gan gynnwys lansio'r Gronfa Arloesi a Chydweithio, dyfarnu grantiau i 10 prosiect sy'n canolbwyntio ar lythrennedd, tegwch, gwrth-hiliaeth a llesiant, a chefnogi 160 o athrawon drwy'r rhaglen Athrawon Caru Darllen.

O ran ei weithgarwch datblygu a chomisiynu adnoddau, yn ystod 2024-25, darparwyd 419 o adnoddau dwyieithog newydd ac wedi'u diweddaru am ddim i ysgolion, gan gynnwys 307 o adnoddau sy'n cefnogi TGAU newydd Gwneud-i-Gymru. Dosbarthwyd 7,125 o lyfrau am ddim i ysgolion, gyda 49,706 o lyfrau eraill i'w dosbarthu erbyn mis Hydref 2025 o dan y prosiect Rhyngom. Cyhoeddwyd 14

o adnoddau cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch presennol.

Roedd adnoddau a diweddariadau digidol arloesol yn cynnwys addasu 80 o lyfrau Cymraeg ar gyfer dysgwyr dall a rhannol ddall drwy RNIB Bookshare. Hefyd, roedd Adnodd wedi sicrhau bod Aberwla – gêm realiti rhithwir ryngweithiol ar gyfer trochi Cymraeg hwyr – ar gael i ysgolion ei llwytho i lawr drwy Hwb. Roedd datblygiadau digidol eraill yn cynnwys Prawf Darllen Digidol, diweddariadau i apiau poblogaidd (Botio, Saba), a throsi cynllun ffoneg Tric a Chlic yn fformat ar y we.

Comisiynodd Adnodd 48 o fideos byr dwyieithog ar hanes Cymru i ategu cyfres 24 Awr S4C; ehangodd adnoddau Fflic a Fflac (fideos, llyfrau, caneuon, gemau) ar gyfer dysgu Cymraeg; datblygodd 40 o e-lyfrau Magi Ann newydd gyda naratif dwyieithog a dosbarthodd 3,060 copi o Cynefin, Cymru a’r Byd a 3,975 copi o Arctig, Pysgodyn ac Aderyn i ysgolion, gydag adnoddau digidol ac Iaith Arwyddion Prydain cysylltiedig.

Parhaodd y gwaith hefyd ar grant o £272,000 a ddyfarnwyd i GwE er mwyn datblygu’r cynllun Ein Llais Ni. Bydd y cynllun hwn yn meithrin hunanhyder a llesiant dysgwyr, a’u datblygu’n gyfathrebwyr dwyieithog hyderus, ac yn arbrofi â strategaethau (gan gynnwys defnyddio adnoddau digidol) er mwyn hybu sgiliau llafaredd yn y Gymraeg.

# Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Ail brif darged 'Cymraeg 2050' yw cynyddu defnydd dyddiol o'n hiaith ac rydym yn gweithio gydag amrywiol bartneriaid i greu cyfleoedd ar gyfer y defnydd hwnnw. Rydym ni'n credu bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd ac rydym ni am i bawb, waeth faint o Gymraeg sydd ganddyn nhw, deimlo'n hyderus i'w defnyddio bob dydd.

**Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n siarad Cymraeg?**

Rydym ni wedi gosod targed i gynyddu canran y bobl tair oed neu hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o'n hiaith, i o leiaf 20% erbyn 2050 i gyd-fynd â'r twf mewn siaradwyr. Mae'r targed hwn hefyd yn un o'r dangosyddion cenedlaethol a nodwyd yn 'Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.


Mae'n anodd iawn mesur defnydd iaith. Un ffordd o wneud hynny yw drwy gynnal arolygon defnydd iaith achlysurol. I'r perwyl hwnnw, cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith diweddaraf ym mis Gorffennaf 2019, ond effeithiodd COVID-19 ar y gwaith. Rydym yn manylu ar ganlyniadau'r arolwg hwn yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf.

Mae arolwg defnydd iaith 2019-20 yn dangos bod 10% o'r boblogaeth yn parhau i siarad Cymraeg yn ddyddiol a mwy nag ychydig o eiriau. Mae hyn felly'n golygu bod hanner siaradwyr Cymraeg yn defnyddio eu Cymraeg bob dydd.

Rydym wedi cyhoeddi crynodebau pwnc am ddefnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac mewn addysg, defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, a defnydd o'r Gymraeg gyda darparwyr gwasanaethau o Arolwg Defnydd Iaith 2019-20. Cyhoeddwyd bwletin ystadegol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ym mis Medi 2023.

Er mai arolygon defnydd iaith sy'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd tuag at y targed o ddyblu defnydd dyddiol o'n hiaith, er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd, rydym hefyd yn defnyddio canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer oedolion (16 oed neu hŷn).

**Siart 11: Canran y bobl 16 oed neu'n hŷn sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

## 6. Y gweithle

Mae gweithleoedd yn lleoedd hollbwysig o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Maent yn cynnig cyfle i bobl ddefnyddio eu Cymraeg, ymarfer ei siarad a datblygu eu hyder a'u sgiliau.

Rydym yn ariannu Prifysgol Bangor i gynnal ARFer, prosiect addunedau iaith mewn gweithleoedd sydd â'r nod o gynyddu defnydd o'r iaith. Cafodd methodoleg newid ymddygiad ARFer ei hymgorffori ar ffurf ap yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Yn 2024, treialodd 6 thîm ym Mhrifysgol Bangor yr ap, a threialodd sefydliadau allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y fersiwn beta yn 2025.

### Cymraeg Gwaith

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu cyrsiau sy'n amrywio o gyrsiau blasu hunan-astudio ar-lein i gyrsiau dysgu dwys. Yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd ohoni, mae Cymraeg Gwaith hefyd yn caniatáu i gyrff ddarparu gwasanaethau Cymraeg gwell i'w defnyddwyr.

Roedd 2024-25 yn flwyddyn lwyddiannus arall i'r rhaglen, gyda 578 o gyflogwyr yn cael cymorth o dan y rhaglen. Mae data dros dro ar gyfer 2024-25 yn dangos bod 9,723 o gofrestriadau ar gyrsiau blasu hunan-astudio, 4,577 o gofrestriadau ar gyrsiau wedi'u rhedeg gan diwtor neu gyda chymorth tiwtor, a 357 o gofrestriadau ar gyrsiau dysgu dwys.

Roedd y cyrsiau sector yn boblogaidd unwaith eto yn ystod 2024-25, gyda 1,113 o gofrestriadau ar gyrsiau i'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch; 577 ar y rhaglen i awdurdodau lleol; 2,787 ar y rhaglen i'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol; ac 858 ar y rhaglen Camau, sydd wedi'i datblygu'n benodol ar gyfer gweithwyr gofal plant.


Mae'r rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn arbennig o lwyddiannus gyda staff yn elwa ar fentora un-i-un i helpu i feithrin eu hyder i siarad Cymraeg yn y gweithle. Ar gyfer 2025-26, bydd y rhaglen yn cael ei hehangu i gynnwys cyrsiau wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer y gweithlu Niwroamrywiaeth a Gofal Dementia.

**Y defnydd o'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru**

Yn ein strategaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn Llywodraeth Cymru, 'Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd', rydym yn gosod nod hirdymor i ddatblygu a hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y sefydliad. Ein nod yw i'r holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru allu deall Cymraeg erbyn 2050, sy'n golygu y byddai'n dod yn weithle lle mae'n arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio'n naturiol ac yn gyfnewidiol.

Mae pedair thema wedi bod yn greiddiol i weithredu'r strategaeth yn ystod y blynyddoedd cyntaf: dysgu, arweinyddiaeth, recriwtio a thechnoleg. Rydym wedi cynyddu ac ehangu ein rhaglen dysgu Cymraeg, sydd wedi arwain at gynnig mwy amrywiol a hygyrch, ac sydd wedi denu mwy o ddysgwyr i'r rhaglen. Ym mis Mai 2020, roedd 76 o ddysgwyr yn dilyn rhaglen dysgu Cymraeg ffurfiol yn Llywodraeth Cymru, ond erbyn 2025, gwelwyd cynnydd o 795% yn nifer ein dysgwyr Cymraeg, gyda 654 o ddysgwyr yn dilyn rhaglen ddysgu ffurfiol.

## Siart 12: Nifer y dysgwyr sy'n dilyn rhaglen dysgu Cymraeg ffurfiol yn Llywodraeth Cymru




Ffynhonnell: Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg


Mae ein harlwy dysgu Cymraeg i staff yn cynnwys 13 opsiwn gwahanol erbyn hyn:

- Dosbarthiadau wythnosol
- Cwrs bloc dwys
- Hunan-astudio ar-lein
- Dysgu 1:1
- Codi hyder
- Gloywi
- SaySomethinginWelsh
- Ynganu Cymraeg
- Kick Off Cymraeg
- Cyrsiau preswyl
- Cwrs Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cymraeg cwrteisi
- Clwb Cymraeg

Yn ystod 2024-25, llwyddodd chwe aelod o staff i ennill cymhwyster y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef y Dystysgrif Sgiliau Iaith, mewn peilot i drosglwyddo'r cymhwyster i'r gweithle. Mae'r chwech yn rhan o raglen cynnal a thracio, ar ôl ennill y Dystysgrif, i'w helpu i roi eu sgiliau ar waith yn y gweithle, fel yr oedd y naw a enillodd y dystysgrif yn ystod cyfnod 2023-24. Yn fwy cyffredinol, darperir cefnogaeth i'n dysgwyr hefyd ymarfer a defnyddio eu sgiliau'n gyson drwy raglen fentora helaeth, rhwydweithiau trafod Cymraeg ar Microsoft Teams a sesiynau ymarfer anffurfiol dan ofal tiwtor, y Clwb Cymraeg.

Rydym yn nodi yn ein deunydd recriwtio bod y Gymraeg yn ased yn Llywodraeth Cymru, waeth beth yw'r swydd sy'n cael ei hysbysebu, gyda phwyslais ar y gefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu sgiliau yn y swydd. Mae ein rhaglen hyfforddiant Cymraeg yn parhau i ehangu a dal dychymyg cyd-weithwyr, gyda chyrsiau newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd dwyieithog a chwrs Croeso i'r Gymraeg newydd wedi'i gomisiynu eleni. Rydym hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar ein huwch arweinwyr, gydag aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil yn modelu ymddygiad cadarnhaol yn eu defnydd o'r Gymraeg a 25% o'r garfan bellach yn dilyn rhaglen ddysgu ffurfiol i ddatblygu eu sgiliau.

**Siart 13: Canran gweithlu Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith**




Ffynhonnell: Arolwg Pobl (Llywodraeth Cymru) ac Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (Swyddfa Cabinet y DU)

[Nodyn 1] Ni chafodd yr arolwg ei chynnal yn 2015. Yn 2016 cafodd y categori "Mwy o Saesneg na Chymraeg" ei rannu'n dri chategori pellach, sef "mwy o Saesneg na Chymraeg ond yn siarad Cymraeg bob

[Nodyn 2] Mae'r canlyniadau a ddangosir ar gyfer 2016 a 2019/20 wedi'u cymryd o'r Arolwg Pobl a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016 a mis Mawrth 2020 (gan ystyried y flwyddyn o Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020). Mae'r canlyniadau eraill wedi'u cymryd o Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (sy'n cael eu cynnal gan Swyddfa Cabinet y Deyrnas Unedig ym mis Hydref fel arfer). I raddau helaeth, yr un holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddau arolwg ac fe'u cynhaliwyd yn yr un ffordd. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Pobl 2020 wedi cael ei gynnal ym mis Mawrth 2020, roedd y gyfradd ymateb ychydig yn is na'r blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd COVID-19.

Mae data Siart 13 uchod yn dangos bod 34% o weithlu Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith. Drwy gyrraedd ein nod o weld yr holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru yn gallu deall Cymraeg erbyn 2050, byddwn yn galluogi ein staff i weithio yn y Gymraeg o ddydd i ddydd, a bydd cynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r iaith o ganlyniad i hynny.

Bydd ail fersiwn strategaeth defnydd mewnol y sefydliad o'r Gymraeg, 'Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd', yn cael ei chyhoeddi maes o law. Er y bydd y nod tymor hir o fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yn parhau, cytunir ar amcan tymor byrrach newydd ar gyfer y cyfnod pum mlynedd nesaf. Bydd fersiwn nesaf y strategaeth yn seiliedig ar yr un pedair thema, sef hyfforddiant, recriwtio,

arweinyddiaeth a TG, ond bydd hefyd yn cynnwys thema newydd: defnyddio'r Gymraeg a magu hyder.

### Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog

Rhaglen iaith mewn arweinyddiaeth yw hon gyda'r sawl sy'n mynychu'n cael trafod eu profiadau a'u barn am sut i weithredu yn ysbryd 'Cymraeg 2050' yn eu sefydliadau. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â meysydd fel:

- Rhagfarn ddiarwybod
- Iaith a phŵer
- Iaith a diwylliant
- Ymddygiadau arweinwyr
- Gweledigaeth a gwerthoedd

Mae'n rhaglen ar y cyd rhwng hwyluswyr allanol, yr Is-adran 'Cymraeg 2050' ac Academi Wales. Yn 2024-25, fe wnaethom gynnal Gweithdai Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog yn Llywodraeth Cymru, yn Ysgol Haf Academi Wales ac i gyd-weithwyr yn y Gwasanaeth Iechyd. Fe wnaethom hefyd weithio gyda'r rhai a oedd wedi cymryd rhan mewn carfanau blaenorol i wreiddio'r hyn roeddent wedi'i ddysgu yn eu diwylliant sefydliadol. O ganlyniad i hyn, rydym wedi creu cyfres o astudiaethau achos fideo a sain sy'n dangos pa mor effeithiol oedd y gweithdai Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog.

## 7. Gwasanaethau

### Rheoliadau Safonau'r Gymraeg

Cafodd rheoliadau i ychwanegu chwe chorff ac Awdurdod Iechyd Arbennig at safonau'r Gymraeg eu cymeradwyo gan y Senedd ar 11 Mawrth 2025, a daethant i rym ar 28 Mawrth 2025. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dechrau'r broses o osod safonau ar y cyrff perthnasol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar reoliadau drafft i wneud safonau'r Gymraeg yn berthnasol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig rhwng mis Mehefin a mis Medi 2025. Rydym yn bwriadu gosod rheoliadau terfynol gerbron y Senedd fis Chwefror 2026.

### Helo Blod

Mae Helo Blod yn helpu unigolion, busnesau, elusennau a chyrff y trydydd sector i ddefnyddio rhagor o Gymraeg drwy gynnig cyfieithiadau am ddim hyd at 500 gair y mis, yn ogystal â gwasanaeth gwirio testun Cymraeg. Mae hefyd yn ateb ymholiadau o bob math gan fusnesau am y Gymraeg, yn darparu nwyddau Iaith Gwaith ac yn cyfeirio pobl at ffynonellau cymorth mewn sefydliadau perthnasol.

Yn ystod 2024-25, roedd gwasanaeth Helo Blod wedi:

- Cael 3,735 o geisiadau cymorth a chyfieithu – 1,613 gan fusnesau, 1,610 gan elusennau a 512 gan unigolion. Roedd y rhain yn cynnwys ceisiadau i

gyfieithu arwyddion, posteri, testun ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ac ar gyfer gwefannau. Cafwyd 165 o ymholiadau 'Cysylltu â Ni' drwy wefan Helo Blod hefyd.
- Cyfieithu 614,645 o eiriau o Saesneg i'r Gymraeg a gwirio 29,318 o eiriau Cymraeg.
- Gweld 1,039 o gyfrifon yn cael eu creu gan gwsmeriaid newydd yn y cyfnod: 430 ar ran busnesau, 260 ar ran elusennau a 350 gan unigolion.
- Caerdydd oedd yr ardal yng Nghymru gyda'r nifer fwyaf o geisiadau'n cael eu creu ar ran busnesau ac elusennau (517), gyda Phowys yn yr ail safle (243), Gwynedd yn drydydd (237) a Cheredigion yn bedwerydd (198).
- Cafwyd 625 o geisiadau gan fusnesau ac elusennau o'r tu allan i Gymru.

**Mwy na geiriau 2022-27**

'Mwy na geiriau' yw cynllun Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth wraidd y strategaeth mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol sy'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn lle bod y claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth yn gorfod gofyn amdanynt. Nod 'Mwy na geiriau' yw gwella gofal a chanlyniadau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg. Mae'r prif lwyddiannau yn ystod 2024-25 wedi'u rhestru isod, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael yn '[Mwy na geiriau: adroddiad blynyddol 2024 i 2025]'.

Nodir isod ein cynnydd at gyflawni 'Mwy na geiriau' yn ôl pob thema sydd wedi'i chynnwys yn y cynllun.

**Y prif lwyddiannau o dan y thema gyffredinol diwylliant ac arweinyddiaeth:**

- roedd 'Mwy na geiriau' a'r Cynnig Rhagweithiol wedi'u gwreiddio ym mhroses rheoli perfformiad byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, ac awdurdodau lleol.
- cyflwynodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith 'Agor y Drws' a datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru gwrs ymwybyddiaeth iaith i weithwyr a myfyrwyr ym maes gofal cymdeithasol.

**Y prif lwyddiannau o ran polisïau a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg (Thema 1):**

- comisiynu ymarfer mapio data llawn i nodi ffynonellau data presennol, bylchau a dangosyddion ymarferol ar gyfer monitro blaenoriaethau yn y cynllun, a chyflawni'r Cynnig Rhagweithiol.
- cwblhau cam cyntaf arolwg darparwyr gofal sylfaenol ym mis Rhagfyr 2024, gan ddarparu data meintiol ar weithredu dyletswyddau'r Gymraeg, hyfforddiant staff, gweithgarwch hyrwyddo ac ymgysylltu â chleifion. Bydd ymchwil ansoddol bellach, sy'n cael ei chynnal yn ystod 2025-26, yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth ar draws gofal sylfaenol.
- mae'r canllawiau cynllunio pwrpasol ar gyfer y gweithlu Cymraeg (wedi'u datblygu gan AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru) yn cael eu defnyddio'n

barhaus, ochr yn ochr â phecynnau cymorth eraill a strategaethau gweithlu, mewn prosesau cynllunio gweithlu blynyddol.

**Y prif lwyddiannau o ran cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu (Thema 2):**

- cyhoeddi cynlluniau pum mlynedd gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i fodloni gofynion Safon 110 Safonau'r Gymraeg, gan alluogi ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- datblygu ymhellach y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan gynnwys parhau i weithredu'r elfen Meithrin Hyder, a chyflwyno'r cyrsiau Cymraeg cwrtais 'Croeso' a 'Croeso i Bawb'.
- parhau i weithredu hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol.
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector gofal drwy ymgyrch Gofalwn Cymru Gofal Cymdeithasol Cymru, ochr yn ochr ag ymdrechion codi ymwybyddiaeth rhanbarthol a lleol gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol.
- casglu data ar y ddarpariaeth ddwyieithog bresennol gan AaGIC a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n dangos bod 63 o gyrsiau israddedig yn 2024-25 wedi cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio o leiaf traean o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ymestyn y Cynllun Doctoriaid Yfory (wedi'i ariannu gan AaGIC) i fwy o yrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys deintyddiaeth. Mae data'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dangos bod 224 o unigolion wedi cofrestru ar draws y tri chynllun.
- mae agor Ysgol Feddygol newydd Gogledd Cymru yn 2024 hefyd wedi annog ceisiadau gan fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru sydd wedi llwyddo i gwblhau cwrs peilot yn ddiweddar, 'Mwy na geiriau: y Gymraeg fel sgil glinigol'.

**Rhai o'r prif lwyddiannau o ran rhannu'r arferion gorau (Thema 3):**

- cynyddu'r defnydd o Hwb Iaith, porth GIG Cymru i rannu adnoddau ac arferion da. Diweddarwyd y wefan gyda gwybodaeth ac adnoddau dysgu Cymraeg fel y rhai sydd ar gael drwy Gofal Cymdeithasol Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg, a Chymunedau Digidol Cymru.
- ehangu gwefannau ac adnoddau digidol dwyieithog, gan gynnwys datblygu Ap dwyieithog GIG Cymru ymhellach.
- treialu system cof cyfieithu ar y cyd ar draws pum sefydliad iechyd cenedlaethol.

**Rhai o'r prif lwyddiannau o ran monitro cynnydd (Thema 4):**

- mae Bwrdd Cynghori Mwy na geiriau yn parhau i graffu ar gynnydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys monitro statws yr holl gamau gweithredu ac adolygu unrhyw rwystrau i gyflawni.
- cynhaliodd y Bwrdd Cynghori ddeialog barhaus â sefydliadau ar draws y sector iechyd a gofal, gan gynnwys y Swyddfa Genedlaethol Gofal a

Chymorth, Gofal Cymdeithasol Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Llais, a'r Gymdeithas Strôc. Dan arweiniad y Bwrdd Cynghori ac ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, datblygwyd cynigion hefyd ar gyfer cwrs Cymraeg wedi'i deilwra ar gyfer gweithwyr tramor, ynghyd â deunyddiau ac adnoddau ategol i hwyluso'r gwaith o'i hyrwyddo a'i weithredu.

## 8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

### Grantiau

Yn ystod 2024-25, dyrannwyd grantiau i 43 o sefydliadau o dan y Grant i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg i gynyddu'r cyfleoedd i unigolion, cymunedau a sefydliadau ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar ein bywydau o ddydd i ddydd. Bwriad y cyllid hwn yw galluogi sefydliadau i ysgogi, datblygu a chynnal amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau i blant a phobl ifanc er mwyn creu pont rhwng addysg ffurfiol a defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Mae gwaith sefydliadau fel yr Urdd, Mudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc, y mentrau iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae'r rhwydwaith o 21 o fentrau iaith yn cynnal ystod eang o weithgareddau ar draws ein cymunedau, yn seiliedig ar gynllunio gofalus a'r dystiolaeth o'r angen yn eu hardaloedd. Rydym yn parhau i bwysleisio bod y mentrau iaith yn datblygu prosiectau sy'n grymuso cymunedau i ddatblygu eu syniadau a'u gweithgareddau eu hunain er budd y Gymraeg.
- Cynhaliwyd gŵyl Tafwyl, sef gŵyl Gymraeg Menter Caerdydd, ym Mharc Bute y ddinas. Roedd hi'n wych gweld yr ŵyl eto'n denu miloedd yn ystod y penwythnos a bod y digwyddiadau ymylol hefyd yn parhau i fynd o nerth i nerth.
- Dyrannwyd grantiau i 54 o bapurau bro yn ystod 2024-25, gyda nod penodol i geisio cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, denu gwirfoddolwyr a chyhoeddi'n ddigidol.

Cynhaliodd Merched y Wawr raglen lawn ac amrywiol o weithgareddau, gyda dros 60,000 yn bresennol yn y digwyddiadau hyn ledled Cymru.

### Siaradwyr Cymraeg newydd

Drwy'r cynllun Cefnogi Dysgwyr, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y gymuned i ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg newydd ddefnyddio eu sgiliau.

Mae'r Ganolfan yn parhau i gydlynu'r cynllun Siarad er mwyn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr mwy hyderus mewn cyd-destun anffurfiol. Nod y cynllun yw magu hyder dysgwyr drwy ddarparu cyfleoedd am sgwrs anffurfiol. Mae'r cynllun Siarad yn tyfu'n flynyddol, gyda dros 350 o barau'n weithredol yn ystod 2023-24.

Mae'r Ganolfan hefyd yn gweithredu cynllun newydd o'r enw Hapus i Siarad, mewn partneriaeth â'r mentrau iaith. Y nod yw sicrhau bod siaradwyr newydd yn cael cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg yn eu cymunedau.

### Eisteddfod yr Urdd

Roedd Eisteddfod yr Urdd 2024 ym Maldwyn yn llwyddiant unwaith eto. Gan adeiladu ar ein cefnogaeth flaenorol i alluogi'r Eisteddfodau i gynnig tocynnau am ddim i deuluoedd incwm is, dosbarthwyd bron i 9,000 o docynnau drwy'r cynllun eleni, ac roedd hi'n wych gweld sawl teulu yn mynychu Eisteddfod yr Urdd am y tro cyntaf oherwydd y gefnogaeth ychwanegol hon.

### Chwaraeon yr Urdd

Mae darpariaeth chwaraeon yr Urdd yn cyrraedd miloedd o blant a phobl ifanc yn flynyddol. Mae'r Urdd yn parhau i gael cyllid gan Chwaraeon Cymru yn ogystal â chyfraniad fel rhan o'i grant craidd 'Cymraeg 2050'. Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc ledled Cymru gymryd rhan mewn chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun yn cynnig cyfleoedd helaeth ar draws amrywiol chwaraeon gan gynnwys pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, gymnasteg a gweithgareddau aml-sgiliau.

### Yr Eisteddfod Genedlaethol

Cafwyd Eisteddfod i'w chofio ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd yn 2024, gyda'r Gymraeg yn cael ei harddangos ar ei gorau drwy gyfrwng ein diwylliant unigryw. Yn debyg iawn i'r gefnogaeth i Eisteddfod yr Urdd, darparwyd cyllid ychwanegol i'r Eisteddfod Genedlaethol hefyd allu cynnig mynediad am ddim i deuluoedd incwm isel.

Rydym yn parhau i gydweithio â'r Eisteddfod i sicrhau bod effaith yr ŵyl ar y Gymraeg a chymunedau yn cychwyn yn syth wedi i'r Eisteddfod gyhoeddi ei lleoliad nesaf. Yn ystod y cyfnod prysur o baratoi ar gyfer yr Eisteddfod, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau cymunedol ledled Rhondda Cynon Taf.

### Dydd Miwsig Cymru

Cafodd Dydd Miwsig Cymru ei ddathlu am y degfed tro ar ddydd Gwener 7 Chwefror 2025.

Roedd y gweithgarwch yn 2025 yn canolbwyntio ar sbarduno pobl i gymryd rhan, yn hytrach na chodi ymwybyddiaeth yn unig, a chafodd ei gyflawni drwy ddigwyddiadau byw, addysg a llwyfannau digidol. Cafwyd dros 40 o berfformiadau byw ledled Cymru a thu hwnt, gan gynnwys prif ddigwyddiad yn Llundain, gan ddenu cyfanswm o 3,634 o bobl.

Roedd miloedd o ddisgyblion wedi mwynhau cerddoriaeth Gymraeg drwy ysgolion a gweithgareddau byw, gan gynnwys tua 1,500 o ddisgyblion o 31 ysgol yn Sir Benfro, a oedd wedi mwynhau perfformiadau pwrpasol wedi'u cynllunio ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc.

Mae data'r ymgyrch yn dangos tystiolaeth glir o newid ymddygiad. Mae ystadegau ffrydio a gasglwyd gan PYST yn dangos bod ffrydiau cerddoriaeth Gymraeg wedi cynyddu 56% ar Ddydd Miwsig Cymru ei hun, o'i gymharu â'r dydd Gwener blaenorol, a 33% dros yr wythnos, gan gyrraedd uchafbwynt o 111,000 o ffrydiau ar 7 Chwefror. Roedd y sylw ar y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol hefyd, gyda chynnydd o 21.2% o un flwyddyn i'r llall yn y gyfradd ymgysylltu, dros 331,000 o ymgysylltiadau, a mwy na 500 o gliciau drwodd i adnoddau'r ymgyrch.

Llwyddodd yr ymgyrch i sicrhau proffil cenedlaethol a rhyngwladol sylweddol. Cafodd Dydd Miwsig Cymru sylw yn fyw ar The One Show ar BBC One, a sylw ychwanegol ar BBC Radio Cymru, BBC Radio Wales, ITV Wales, Channel 5 a The Guardian. At ei gilydd, soniwyd am yr ymgyrch 316 o weithiau yn y cyfryngau ar draws 43 o sefydliadau.

Roedd gweithio mewn partneriaeth wedi chwarae rhan ganolog, gyda 39 o sefydliadau, gan gynnwys 10 partner newydd, yn gwreiddio cerddoriaeth Gymraeg mewn gweithleoedd, trafnidiaeth, chwaraeon a lleoliadau cymunedol, gan wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy a chlywadwy o ddydd i ddydd.

## Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae'r drydedd thema yn cefnogi'r ddwy thema flaenorol er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy greu amodau addas a meithrin amgylchedd lle gall ein hiaith a'i siaradwyr ffynnu.

Er bod gennym ni dargedau ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr a'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg, ni chaiff y naill na'r llall eu cyflawni heb seilwaith addas.

### Cymuned a'r economi

Ym mis Hydref 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r 'Cytundeb Cydweithio', gyhoeddi £11m ar gyfer cam 2 y rhaglen ARFOR. Y bwriad yw adeiladu ar brosiectau blaenorol a chanfyddiadau gwerthusiad annibynnol y rhaglen ARFOR 1, ynghyd ag ychwanegu gwerth at raglenni economaidd ac ieithyddol sydd eisoes ar waith. Mae'r rhaglen yn weithredol o fewn ffiniau awdurdodau lleol Ceredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn.

Prif nod ARFOR 2 yw sicrhau ffyniant economaidd yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd y prosiectau canlynol eu sefydlu a'u rhoi ar waith:

- Llwyddo'n Lleol – i greu cyfleoedd i bobl a theuluoedd ifanc aros neu ddychwelyd i'w cymunedau brodorol – gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa a sicrhau bywoliaeth sy'n cyflawni eu dyheadau.
- Cymunedau Mentrus – drwy fynd ati i greu cymunedau sy'n mentro drwy gefnogi sefydliadau masnachol a chymunedol sy'n anelu at gadw a

chynyddu cyfoeth yn lleol, gan fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.

- Cronfa Her ARFOR – gyda'r nod o annog cydweithio drwy ddysgu a gwella'n barhaus – drwy sefydlu meddylfryd dysgu drwy wneud a gwella parhaus, dysgu o weithgaredd mewn un ardal ac yna ei ymestyn i ardaloedd eraill, ond ei deilwra i amgylchiadau lleol.
- Bwrlwm ARFOR – drwy gryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg – drwy gefnogi defnydd a gwelededd y Gymraeg ac annog naws am le a theyrngarwch lleol.

Daeth ARFOR 2 i ben ym mis Mawrth 2025 ac ar gyfer y flwyddyn nesaf bydd cyfnod o 'oedi a myfyrio' i barhau ag agweddau penodol ar y rhaglen, ystyried y gwersi a ddysgwyd, y cyfleoedd i brif ffrydio a rhannu arferion da i ehangu ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg, gan wella dealltwriaeth o'r ymyriadau economaidd sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i ffyniant y Gymraeg a chyfrannu at amcanion 'Cymraeg 2050'.

**Amaethyddiaeth**

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 wedi sefydlu fframwaith o bedwar amcan ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy, er mwyn cefnogi a rheoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru i'r dyfodol.

Un o amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yw; *'*Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd'.

Mae'r amcan hwn yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg o fewn ein sector amaethyddol. Yn ogystal, yn unol â'r pŵer i ddarparu cymorth yn y Ddeddf, mae un o'r dibenion rhestredig yn ei gwneud yn bosib darparu cymorth i'r sector ar gyfer 'cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd', a drwy hynny cefnogi camau gweithredu y gall y sector eu cymryd tuag at gyflawni'r diben hwn.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried beth yw'r ffordd orau y gall unrhyw gymorth amaethyddol gyfrannu at amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy i'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sydd ar waith ers 1 Ionawr 2026.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu nifer o ofynion monitro, adrodd a gwerthuso. Cyhoeddwyd y Cynllun Cymorth Amlflwydd ym mis Rhagfyr 2024 a bydd dangosydd a datganiad targed Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael eu cyhoeddi eleni. Bydd adroddiadau blynyddol, adroddiadau effaith ac adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar ôl hynny.

**Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg**

Mae ein Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn amlinellu cyfres o fentrau i fynd i'r afael â heriau o ran yr economi, tai, datblygu cymunedol a chynllunio ieithyddol sy'n wynebu cymunedau daearyddol â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae nifer o'r cymunedau hyn wedi gweld galw mawr am eiddo i'w ddefnyddio fel ail

gartrefi sydd wedi codi pryderon am fforddiadwyedd a dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol ffyniannus. Ein nod yw grymuso'r cymunedau Cymraeg eu hiaith sy'n wynebu heriau cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol i gymryd perchnogaeth a datblygu atebion sy'n gallu diogelu cynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.

Yn ystod 2024-25, fe wnaethom gyflawni'r canlynol drwy ymyriadau'r 'Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg':

- Drwy wasanaeth cynghori Perthyn, cefnogodd Cwmpas a Planed 26 o grwpiau cymunedol ar draws y Gogledd-orllewin a'r De-orllewin i'w helpu i ddatblygu eu syniadau a'u prosiectau dan arweiniad y gymuned. Roedd 10 o'r grwpiau cymunedol hyn yn archwilio tai dan arweiniad y gymuned. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd 5 menter dan arweiniad y gymuned wedi'u cofrestru fel mentrau cymdeithasol neu fentrau cydweithredol hyfyw.
- Yn ogystal â'r gwasanaeth cynghori, agorwyd pedwaredd rownd cynllun grantiau Perthyn. Gyda hyd at £10,000 o gyllid refeniw ar gael, fe wnaethom gefnogi 15 o grwpiau cymunedol.
- Mae'r cynllun Perthyn yn brosiect ymyrryd yn gynnar sy'n ychwanegu gwerth at y gefnogaeth sydd eisoes yn cael ei chynnig gan Busnes Cymdeithasol Cymru a Chymunedau'n Creu Cartrefi drwy fynd ati'n benodol i adeiladu capasiti mewn cymunedau.
- Mae'r cynlluniau sy'n cael eu hariannu yn cynnwys:
    - Hwb Aberteifi, lle prynodd y gymuned hen Gapel Tabernacl yng nghanol tref Aberteifi i greu canolfan gymunedol yn ogystal â chreu tŷ dwy ystafell wely a fflatiau fforddiadwy i bobl leol.
    - Cafodd y fenter gymunedol Canolfan Penmachno gyllid i fwrw ymlaen ag elfennau cam cynnar o'u menter tai dan arweiniad y gymuned.
    - Nod y grŵp Bys a Bawd Pawb oedd prynu'r siop lyfrau Gymraeg yn Llanrwst a chynnig dau lety fforddiadwy i bobl leol.
- Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom hefyd barhau i ddatblygu'r Cynllun Llysgenhadon Diwylliannol. Yn dilyn y lansiad cychwynnol ar Ddydd Gŵyl Dewi 2024, fe wnaethom lansio'r lefel arian ym mis Tachwedd 2024. Mae'r cynllun yn gyfres o fodiwlau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'n diwylliant, ein treftadaeth a'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau. Mae'r modiwlau hyn yn canolbwyntio ar hanes cynnar y Gymraeg a sut mae wedi datblygu, a phwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg. Prif fwriad y cwrs yw adeiladu a grymuso rhwydwaith o Lysgenhadon i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a helpu pobl i integreiddio i'w cymunedau newydd.
- Byddwn yn ymchwilio ymhellach i faterion diogelu enwau lleoedd Cymraeg, gan gynnwys enwau hanesyddol, tirweddol ac enwau tai. Gweler mwy o fanylion yn adran Enwau Lleoedd isod.

**Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg**

Fe wnaethom sefydlu'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn 2022 i wneud argymhellion ar sut gallwn gryfhau polisi cyhoeddus mewn perthynas â chynaliadwyedd ieithyddol mewn cymunedau Cymraeg. Fe wnaethom hefyd ofyn

i'r Comisiwn ddarparu dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2021. Wedi'i gadeirio gan Dr Simon Brooks, roedd cam cyntaf y Comisiwn yn cynnwys deg aelod annibynnol gydag arbenigedd a phrofiad mewn amrywiaeth o feysydd polisi gan gynnwys yr economi, tai, addysg, llywodraeth leol, adfywio cymunedol a chynllunio ieithyddol. Gweithiodd y Comisiwn gyda'r prosiect Bro: Arolwg Sosioieithyddol Cynhwysfawr o Gymunedau Cymraeg Cyfoes dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Ym mis Awst 2024, cyflwynodd Cadeirydd y Comisiwn, Dr Simon Brooks, adroddiad y Comisiwn, 'Grymuso Cymunedau, cryfhau'r Gymraeg', i Brif Weinidog Cymru.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr heriau economaidd-gymdeithasol ac ieithyddol sy'n wynebu ein cymunedau Cymraeg, ochr yn ochr â 57 o argymhellion a chompendiwm o ystadegau iaith o ddata Cyfrifiad 2021 wedi'u paratoi gan y prosiect BRO. Roedd y Comisiwn yn cydnabod cymhlethdod ac arwyddocâd polisïau cynllunio ar gyfer cymunedau Cymraeg ledled Cymru gyfan, ac felly ym mis Chwefror 2025 cyhoeddodd adroddiad annibynnol ar Gynllunio Gwlad a Thref a oedd yn cynnwys 14 o argymhellion.

Rhwng mis Awst 2024 a mis Mai 2025, fe wnaethom weithio ar draws nifer o feysydd polisi i baratoi ymateb cynhwysfawr i'r adroddiad 'Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg'. Mae ein hymateb yn mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n perthyn i gylch gwaith Llywodraeth Cymru, gan gydnabod rolau awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau perthnasol eraill ar yr un pryd.

Dechreuodd ail gam gwaith y Comisiwn, sef archwilio'r Gymraeg mewn ardaloedd o ddwysedd canolig neu is o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a thu hwnt, ym mis Awst 2024. Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones sy'n cadeirio yn absenoldeb Dr Simon Brooks.

**Fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg**

Mae'r 'Rhaglen Lywodraethu' yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg, er enghraifft:

- Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu.
- Cyhoeddi Papur Gwyn sy'n cynnwys cynigion ar gyfer hawl i gartref digonol, gan gynnwys rhenti teg a dulliau newydd o wneud cartrefi yn fforddiadwy i'r rhai sydd ar incwm lleol.
- Bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau i'w osod.
- Cefnogi tai cydweithredol, mentrau dan arweiniad y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.
- Datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn sawl maes, yn unol â dull gweithredu triphlyg Llywodraeth Cymru ar gyfer ail gartrefi, gan weithredu'r pecyn ymyriadau mwyaf cynhwysfawr yng nghyd-destun y DU.

Ehangodd Llywodraeth Cymru bwerau awdurdodau lleol i godi cyfradd bremiwm, yn ôl eu disgresiwn, ar y dreth cyngor ar ail gartrefi ac eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir. O 1 Ebrill 2023, codwyd yr uchafswm y gall awdurdodau lleol ddewis ei godi o 100% i 300%. Erbyn hyn, mae'r pwerau hyn yn rhan gyffredin o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn rheoli ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Ers mis Ebrill 2025, mae 21 o 22 awdurdod lleol bellach yn codi premiymau ar y naill fath o eiddo neu'r llall, neu'r ddau fath o eiddo. Mae premiymau'n codi arian sylweddol sy'n cael eu defnyddio at amrywiaeth o ddibenion buddiol.

Newidiwyd y rheolau ynghylch llety gwyliau tymor byr – sy'n golygu bod rhaid i'r llety fod ar gael i'w osod am o leiaf 252 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis er mwyn talu ardrethi annomestig (yn hytrach na'r dreth cyngor), a'i fod yn cael ei osod am o leiaf 182 o ddiwrnodau yn ystod y cyfnod hwnnw. Rydym nawr yn gwybod bod y rhan fwyaf o'r gweithredwyr gosod tymor byr (60%) wedi cyrraedd y trothwy gosod newydd yn y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn uwch na rhagfynegiadau'r diwydiant. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod perchnogion yn gwneud cyfraniad teg i'r gymuned leol.

Rydym hefyd wedi cyflwyno newidiadau arloesol i'r system gynllunio; sefydlodd y rhain dri dosbarth defnydd cynllunio newydd: prif gartref, ail gartref a llety gwyliau tymor byr. Bellach gall awdurdodau cynllunio lleol, lle mae ganddynt dystiolaeth a phan fyddant wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, ei gwneud yn ofynnol i berchnogion eiddo gael caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd o un dosbarth i'r llall. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwrw ymlaen i sefydlu cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety i ymwelwyr yng Nghymru. Er bod y gweithgaredd hwn wedi digwydd y tu hwnt i'r cyfnod adrodd, mae'n werth nodi, ar ôl rhoi'r Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) ar waith ym mis Medi 2025, y bydd y broses gofrestru ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr yn dechrau yn hydref 2026. Yn y cyfamser, mae'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) yn mynd drwy Gyfnod 1 proses ddeddfwriaethol y Senedd ar hyn o bryd. Bydd y Bil, os caiff ei basio, yn cyflwyno trefn drwyddedu ar gyfer llety hunanddarpar.

Rydym yn parhau i hyrwyddo datblygiadau tai fforddiadwy yn rhannau mwyaf gwledig Cymru drwy ein rhaglen Swyddogion Galluogi Tai Gwledig. Darperir cyllid i gefnogi chwe rhaglen Swyddogion Galluogi Tai Gwledig ar draws ardaloedd mwyaf gwledig Cymru. Mae'r rhaglenni'n chwarae rôl hollbwysig yn yr ardaloedd hyn, gan weithio gyda phartneriaid i nodi anghenion llety lleol o fewn cymunedau.

### Peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd

Gan weithio gyda phartneriaid fel Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a'r cymdeithasau tai Adra a Grŵp Cynefin, rydym wedi sefydlu ac integreiddio cynllun peilot yn Nwyfor, Gwynedd. Bydd y peilot yn profi nifer o ymyriadau ac yn asesu eu heffeithiolrwydd wrth reoli ail gartrefi a'u heffaith ar fforddiadwyedd.

Rydym wedi treialu rheolau newydd yn y peilot ar gyfer ein cynllun rhannu ecwiti Cymorth Prynu, ac wedi gweld 35 o gartrefi'n cael eu prynu yn yr ardal. Ym mis Medi 2024, Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod cynllunio lleol cyntaf i roi

cyfarwyddyd cynllunio Erthygl 4 ar waith. Dilynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei arweiniad ym mis Mehefin 2025. Rydym wedi rhoi cymorth ariannol i gyfarwyddyd Erthygl 4 Cyngor Gwynedd yn ardal beilot Dwyfor yn unig, er mwyn gallu gwerthuso'n annibynnol yr adnodd a goblygiadau ymarferol gosod cyfarwyddyd a rhannu'r hyn a ddysgwyd ledled Cymru.

Gan adeiladu ar lwyddiant Cymorth Prynu a chydnabod y cyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy newydd i fod yn berchen arnynt mewn llawer o gymunedau yn Nwyfor, rydym wedi gweithio gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu cynnyrch 'Cymorth Prynu Pwrpasol' i'w dreialu ar bedwar safle mewn gwahanol gymunedau ledled Dwyfor. Y safleoedd hyn a'r math o ddeiliadaeth yw'r rhai mwyaf cymhleth i'w datblygu: ar raddfa fach, anghysbell, ar safleoedd eithriedig a pherchnogaeth fforddiadwy. Mae Cyngor Gwynedd yn paru ein buddsoddiad ag arian sy'n deillio o bremiymau'r dreth cyngor – gan danlinellu sut mae ein polisïau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Bydd gwerthusiad annibynnol yn rhoi adroddiad ar beilot Dwyfor. Caiff y canfyddiadau eu rhannu'n barhaus nes cyhoeddi'r adroddiad effaith terfynol yn 2026. Bydd y gwerthusiad yn ystyried effeithiolrwydd yr ymyriadau ac yn ein hwyluso i rannu arferion da a'r hyn a gaiff ei ddysgu gydag ardaloedd eraill sy'n wynebu heriau tebyg.

**Y Gymraeg a chydraddoldeb**

Yn yr un modd ag y mae strategaeth 'Cymraeg 2050' yn un hirdymor, mae gan y Llywodraeth strategaethau traws-lywodraethol hirdymor eraill. Ar y cyd â phartneriaid 'Cymraeg 2050', mae'r Llywodraeth wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'r camau gweithredu a'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn ein 'Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol' a'n 'Cynllun Gweithredu LHDTC+'. Mae 'Cymraeg 2050' wedi'i wreiddio yng ngwead y cynlluniau cydraddoldeb hyn a'r bwriad yw iddynt gyd-fodoli ac atgyfnerthu ei gilydd. Gweler yr adroddiadau cynnydd perthnasol i weld diweddariadau manylach ar ein gwaith yn y meysydd hyn: 'Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – Diweddariad / Cynllun Gweithredu LHDTC+: diweddariad ar gynnydd'.

## 9. Diwylliant a'r cyfryngau

Rydym yn gweithio ar draws amrywiol sectorau a meysydd polisi i weithredu 'Cymraeg 2050'. Yn hyn o beth, mae pob un o'r cyrff hyd braich yn y sector diwylliant a chwaraeon wedi ymrwymo i gefnogi ein targed i gynyddu defnydd iaith a chyrraedd y miliwn erbyn 2050.

Rydym eisiau gweld a chlywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n eang mewn diwylliant poblogaidd ym mhob un o'r cyfryngau celfyddydol ac mewn llenyddiaeth, theatr, ffilm a theledu. Mae'r defnydd o'r Gymraeg gan fodelau rôl fel mabolgampwyr a merched, cerddorion ac actorion, a ffigurau a sefydliadau amlwg eraill yn ffordd o godi statws y Gymraeg fel iaith fyw.

Mae Blaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025, yn cynnwys uchelgais i sicrhau bod diwylliant yn

cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn adlewyrchu Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlieithog.

**Brand Cymru Wales**

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o frand Cymru Wales, ac wedi cael ei defnyddio'n helaeth eto eleni i hybu Cymru a denu twristiaeth a buddsoddiadau. Yn y sector twristiaeth, mae hyn yn cynnwys annog busnesau i sicrhau ymdeimlad cryf am le yn eu darpariaeth, ac mae defnyddio'r Gymraeg yn rhan ganolog o hyn. Mae'r Gymraeg hefyd wedi bod yn rhan ganolog o un o'n prif ymgyrchoedd twristiaeth, Addo, i annog pobl i fod yn gyfrifol tra'n ymweld â Chymru. Mae Addo'n gofyn i ymwelwyr a phreswylwyr wneud addewid i Gymru, sy'n cynnwys gofyn i bobl barchu a dathlu ein hiaith a'n diwylliant unigryw. Rydym hefyd yn arwain ar ymgyrch lwyddiannus Gŵyl Dewi, sy'n gofyn i bobl ym mhob man wneud y pethau bychain, ac sy'n hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru ar draws y byd.

Rydym yn parhau i gefnogi busnesau i adlewyrchu gwerthoedd y brand yn eu gwaith. Fe wnaethom ddefnyddio'r Gymraeg mewn ymgyrchoedd blaenllaw i hyrwyddo Cymru hefyd. Ers mis Ionawr 2025, mae ein prif ymgyrch twristiaeth yn seiliedig ar y gair Hwyl, sy'n annog pobl i deimlo'r hwyl, teimlad na allant ond ei brofi yng Nghymru. Mae'r ymgyrch gyfan yn chwarae ar y ffaith nad oes cyfieithiad uniongyrchol i'r gair, a'i fod yn rhywbeth unigryw i Gymru a'r Gymraeg. Cafodd yr ymgyrch ei lansio ym mis Ionawr 2025 gyda ffilm esboniadol gyda'r newyddiadurwr Maxine Hughes yn cyflwyno'r gair a'r cysyniad, ac ers hynny mae'r holl weithgareddau â thâl gan gynnwys hysbysebion y tu allan i'r cartref, teledu a digidol i gyd wedi cael eu defnyddio a'u hadeiladu ar sail y cysyniad 'Teimla'r Hwyl'. Mae'r ymgyrch yn parhau yn 2026.

Rydym wedi sefydlu partneriaethau gyda labeli recordiau Cymreig er mwyn ein galluogi i ddefnyddio cerddoriaeth Gymraeg ar rai o'r fideos yr ydym yn eu creu ar gyfer ein sianeli cymdeithasol, i roi llwyfan ehangach i gerddoriaeth Gymraeg, ac rydym yn canolbwyntio ar gyflwyno mwy fyth o Gymraeg yn gyffredinol ar ein sianeli cymdeithasol. Rydym bellach yn defnyddio enwau lleoedd Cymraeg yn unig yn bennaf ar ein sianeli cymdeithasol, yn ogystal ag ar ein gwefan, gan roi'r enw Saesneg mewn cromfachau os oes angen, ac yn aml yn cynnwys postiadau am ymadroddion Cymraeg defnyddiol i'w defnyddio wrth ymweld, yn ogystal ag esboniadau o ystyr geiriau ac enwau lleoedd Cymraeg.

Byddwn yn parhau i wneud mwy i roi llwyfan i'r Gymraeg yn ein hymgyrchoedd dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn ein hymgyrchoedd marchnata.

Yn unol â thema Dilysrwydd 'Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru', anogir pob digwyddiad sy'n cael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd greadigol a chynhwysol.

Yn ystod 2025, roedd llawer o ddigwyddiadau a oedd wedi cael cymorth yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru drwy'r artistiaid a oedd yn cymryd rhan, gan gynnwys noson Gymraeg newydd yng Ngŵyl Gomedi'r Mynyddoedd Duon, a gŵyl gerddoriaeth roc Steelhouse yn parhau i gynnwys eu slogan 'Rocio y

Mynydd’ ar draws yr holl ymgyrchoedd hyrwyddo yn y cyfryngau, a chyflwyno ardal VIP ‘Mynydd Draig’ newydd.

Mabwysiadodd Digwyddiadau Cymru y syniad o Hwyl ar draws ei ddigwyddiadau sy’n cael eu cefnogi hefyd, gyda’r gair yn cael ei ymgorffori mewn negeseuon marchnata digwyddiadau mawr fel rowndiau terfynol rygbi Ewrop yng Nghaerdydd a phencampwriaeth tennis agored gyntaf Wrecsam. Efallai mai’r enghraifft orau o frwdfrydedd trefnwyr digwyddiadau i ddefnyddio’r Gymraeg fel ffordd gadarnhaol o gyfoethogi eu digwyddiad, a chreu natur unigryw, oedd yn ystod y seremoni gyflwyno ffurfiol ym Mhencampwriaeth Agored y Merched AIG, a gynhaliwyd yng Nghymru am y tro cyntaf yng Nghlwb Golff Brenhinol Porthcawl ym mis Gorffennaf 2025. Dechreuodd yr anerchiad croeso yn y digwyddiad chwaraeon byd-eang hwn, a gafodd ei ennill gan chwaraewr o Japan a’i ddarlledu mewn dros 80 o wledydd, yn Gymraeg.

**Amgueddfa Cymru**

Mae’r Gymraeg yn rhan gynhenid o dreftadaeth a diwylliant Cymru – oherwydd hynny, mae gan Amgueddfa Cymru rôl allweddol o ran datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl o hanes yr iaith a diwylliant Cymru, yn ogystal â defnyddio a dathlu’r iaith yn eu gwaith.

Cafodd Amgueddfa Cymru nifer o lwyddiannau, datblygiadau a chynnydd yn ystod 2024-25, gan gynnwys:

- Darparu rhaglen gyhoeddus o ddigwyddiadau, arddangosfeydd a chyfleoedd sy’n dathlu ac yn defnyddio’r Gymraeg, ac yn croesawu cynulleidfaoedd newydd i’w amgueddfeydd a’r iaith. Roedd hyn yn cynnwys arddangosfa’r Cymoedd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Ein Lleisiau Ni, prosiect i annog a chofnodi lleisiau LHDTC+ yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a’r prosiect Safbwynt(iau) ar draws ei amgueddfeydd mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Cryfhau ac ehangu ei bartneriaethau gyda’r Mentrau Iaith agosaf i’w amgueddfeydd i hwyluso dysgu a defnyddio’r Gymraeg. Erbyn hyn, mae gan bob un o’i amgueddfeydd berthynas â’i Menter leol ac maent yn cynnal digwyddiadau, fel teithiau tywys, grwpiau sgwrsio, grwpiau rhieni a gwyliau fel Gŵyl Tawe.
- Parhau i ddatblygu prosiectau technolegol newydd sy’n cefnogi ac yn datblygu’r Gymraeg mewn technoleg, gan gynnwys treialu’r llwyfan TellMe yn llwyddiannus yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru sy’n defnyddio AI i greu profiad wedi’i deilwra ar gyfer ymwelwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Datblygu ei wybodaeth a’i ddealltwriaeth o’i ymwelwyr mewn perthynas â’r Gymraeg, er enghraifft drwy’r data dadansoddeg o’n llwyfan tocynnau ar-lein dwyieithog a systemau eraill fel QR Cymraeg.
- Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i ddatblygu polisi newydd ar ddefnydd mewnol o’r Gymraeg. Mae gan 59% o weithlu Amgueddfa Cymru sgiliau Cymraeg, gyda 26% yn rhugl.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Mae arddangosfeydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnig gwybodaeth sy'n ennyn diddordeb yn y Gymraeg a'i hanes drwy gyflwyno hanes, cymdeithas a diwylliant Cymreig.

Yn ogystal â pharhau i fod yn sefydliad sy'n gweithredu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, canolbwyntiodd y Llyfrgell ar gynyddu defnydd a hygyrchedd y Gymraeg drwy fentrau fel GWRANDO, y gwasanaeth llyfrau sain newydd. Yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei gwasanaethau, ei chyhoeddiadau a'i digwyddiadau, darparodd hyfforddiant Cymraeg i staff, gyda 97.6% yn meddu ar ryw fath o sgiliau iaith Gymraeg. Mae ei llwyddiannau allweddol yn cynnwys:

- cydweithio â Chymdeithas Deillion Gogledd Cymru ac SCL Cymru i ddarparu llyfrau sain GWRANDO Cymraeg i lyfrgelloedd cyhoeddus, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru
- cefnogi hyfforddiant iaith Gymraeg i staff, sicrhau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd a hyrwyddo cynnwys digidol a deunyddiau hyrwyddo dwyieithog
- datblygu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd, cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a meithrin sgiliau digidol Cymraeg
- cynnig tasgau gwirfoddoli yn y Gymraeg wyneb yn wyneb neu ar-lein, gan gynnwys rhai sy'n addas ar gyfer siaradwyr newydd
- dathlu'r Gymraeg a'i diwylliant drwy ei phresenoldeb yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.

**Chwaraeon Cymru**

Mae Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg wedi parhau i weithio mewn partneriaeth i gefnogi ac annog sefydliadau cenedlaethol yn y sector chwaraeon i ymestyn eu darpariaeth mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae Chwaraeon Cymru'n ystyried y gwaith hwn yn rhan bwysig o'i ddyletswyddau o ran y Gymraeg drwy annog y broses o ddatblygu a hyrwyddo mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn chwaraeon.

Yn 2023, enillodd dau Gorff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer Chwaraeon gydnabyddiaeth Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg – y Cyrff cyntaf ym maes Chwaraeon i wneud hynny. Enillodd Triathlon Cymru ac Undeb Rygbi Cymru y gydnabyddiaeth i nodi eu hymrwymiad i'r Gymraeg ac i ehangu eu gwasanaethau Cymraeg.

Mae chwe chorff llywodraethu cenedlaethol arall a phartneriaid cenedlaethol yn gweithio tuag at yr achrediad hwn gyda chymorth y tîm Hybu. Mae staff Chwaraeon Cymru yn defnyddio proses Yr Hyn sy'n Bwysig gyda'n partneriaid i gadw golwg ar barodrwydd ac i gefnogi gwaith mewn partneriaeth â gweithwyr Comisiynydd y Gymraeg.

Fel elfen allweddol o'i ymrwymiad i'r Gymraeg, mae Chwaraeon Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â rhaglenni helaeth yr Urdd, gan fuddsoddi ynddynt, i sicrhau cyfleoedd i fwynhau chwaraeon a gweithgareddau hamdden drwy'r Gymraeg. Dyma grynodeb o rai o lwyddiannau'r Urdd yn ystod 2024-25:

- Darpariaeth ragarweiniol ar ôl ysgol: Ymestyn y ddarpariaeth i ysgolion newydd wrth i gronfeydd gwirfoddolwyr dyfu.
- Clybiau Cymunedol a darpariaeth Gwyliau: ehangu'r cynnig o ddarpariaeth gymunedol benodol drwy gynnwys gweithgareddau chwaraeon dros yr haf; Parhau i ganolbwyntio ar chwaraeon a chanlyniadau wedi'u targedu, fel menywod a merched.
- Gwirfoddolwyr a hyfforddwyr: hyfforddiant parhaus a datblygu hyfforddwyr a gwirfoddolwyr newydd; Mae rôl prentis newydd wedi dechrau cefnogi digwyddiadau.
- Gweithio gyda'r ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach mewn ardaloedd penodol i greu gweithlu ifanc o wirfoddolwyr sy'n gallu cefnogi twf prosiectau cynhwysiant. Mae gwersi Cymraeg bellach wedi dechrau ar gyfer y gwirfoddolwyr newydd cyn iddynt gael eu cyfeirio at gefnogi darpariaeth gymunedol.
- Cydweithio â'r sector addysg bellach i gynnal digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol.
- Cystadlaethau Rhanbarthol a Digwyddiadau Cenedlaethol: Parhau i gynnal sawl cystadleuaeth ranbarthol gyda'r lefelau cyfranogi yn parhau i fod yn uchel iawn. Mae ysgolion a cholegau yn dal yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn cystadlaethau cynhwysol sy'n cael eu rhedeg yn dda. Mae digwyddiadau'n cael eu cynllunio i gysylltu â digwyddiadau chwaraeon mawr, uchel eu proffil.
- Gweithio mewn partneriaeth i alluogi rhaglen o gymorth un-wrth-un yn y pwll sy'n gwneud rhaglenni dysgu nofio yn gwbl gynhwysol. Mae hyfforddiant hefyd wedi cael ei ddarparu i staff erbyn hyn er mwyn gallu darparu cymorth un-i-un yn y pwll.
- Datblygu Staff: Parhau i sicrhau bod gan staff y cymwysterau perthnasol i sicrhau safonau uchel wrth ddarparu; darparu cyrsiau hyfforddi/arweinyddiaeth i staff yn fewnol.

**Cymru Greadigol**

Mae Cymru Greadigol wedi ymrwymo i gefnogi 'Cymraeg 2050' drwy ei weithgareddau craidd yn 2024-25, a hynny drwy ddatblygu cynnwys Cymraeg a dwyieithog, a helpu i gefnogi'r gwaith o greu swyddi mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith a busnesau cynhenid Gymreig.

Yn y sector sgrin, rydym yn parhau i weithio gyda'r diwydiant a darlledwyr, gan gynnwys drwy ein Memoranda Cyd-ddealltwriaeth â'r BBC ac S4C, i gyflenwi cynnwys sy'n adlewyrchu bywydau, tirweddau, ieithoedd a diwylliant ein cenedl. Yn 2024-25, roedd mecanwaith Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol wedi cefnogi 'Hafiach' (Vox), 'Y Gronyn Gobaith' (Telesgop), 'Cleddau/The One that Got Away' (Blacklight) a 'Golau/The Light in the Hall' (Triongl), gan barhau i ganolbwyntio ar arddangos cynnwys Cymreig, Cymru a'i hiaith a'i diwylliant cyfoethog i

gynulleidfaoedd ehangach, byd-eang. Hefyd fe wnaethom gyd-ariannu ein ffilm hir Gymraeg gyntaf mewn partneriaeth ag S4C, sef 'Effie yn Blaenau'. Cafodd y ffilm, wedi'i chyfarwyddo gan Marc Evans a'i chynhyrchu gan Branwen Cennard, ei ffilmio ar ddechrau 2025 yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog. Mae'n seiliedig ar ddrama lwyfan Gary Owen – Iphigenia in Splott.

O ran polisi darlledu, mae Cymru Greadigol wedi parhau i gynrychioli anghenion pobl Cymru a siaradwyr Cymraeg mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ac Ofcom ynghylch amryw o faterion, gan gynnwys rhoi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith.

Mae cefnogaeth Cymru Greadigol i'r sector cerddoriaeth wedi bod yn hollbwysig er mwyn cryfhau busnesau cynhenid Gymreig a hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg. Yn 2024-25, rydym wedi cefnogi gwyliau fel Gŵyl Nawr a Gŵyl Tawe. Ar ben hynny, roedd ein rhestr chwarae Cymru Greadigol fisol ar Spotify wedi cynnwys dros 200 o ganeuon Cymraeg. Mae'r gigiau Cymraeg yn Llundain, wedi'u hyrwyddo gan Klust, wedi bod yn llwyddiannus iawn hefyd.

Mae cyfran o gyllid Cymru Greadigol i Gyngor Llyfrau Cymru yn cael ei dyfarnu i gefnogi'r sector cyhoeddi Cymraeg. Yn ystod 2024-25, roedd y Cyngor Llyfrau wedi cefnogi dros 138 o lyfrau Cymraeg a 14 o gylchgronau papur a digidol i oedolion a phlant, yn ogystal â'r gwasanaeth newyddion digidol Golwg360. Roedd hefyd wedi cefnogi dysgwyr Cymraeg drwy gylchgrawn 'Lingo'; meddalwedd geirfa ar holl dudalennau Golwg360; ac 'Amdani', y gyfres lyfrau i ddysgwyr sydd â dros 47 o gyfrolau ac sydd wedi gwerthu dros 77,000 o gopïau. Roedd Cyngor Llyfrau Cymru wedi mynd ati i lenwi'r bylchau o ran cynrychiolaeth deg i bobl sy'n cael eu tangynrychioli mewn llyfrau Cymraeg i blant, fel y gyfres 'Rhyngom' sy'n cynnwys 10 llyfr gwreiddiol a nifer o addasiadau. Un datblygiad newydd a phoblogaidd oedd y podlediad 'Sut i Ddarllen', sy'n trafod y pethau sy'n rhwystro pobl rhag darllen, sut i'w goresgyn, a budd gwneud hynny.

Drwy ein Cronfa Sgiliau Creadigol a'n Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol, rydym wedi ymrwymo i gefnogi uchelgeisiau 'Cymraeg 2050'. Roedd nifer o'r 17 o brosiectau a gafodd gymorth yn ail rownd y Gronfa Sgiliau Creadigol yn cefnogi cyfranogwyr Cymraeg a chyrsiau hyfforddi Cymraeg, gan adeiladu ar y 155 o gyrsiau hyfforddi Cymraeg a ddarparwyd drwy'r rownd ariannu gyntaf. Rydym hefyd yn cyd-ariannu NFTS Cymru a Chlwstwr Sgiliau BFI Cymru, sy'n cael ei gynnal gan y darparwr hyfforddiant dwyieithog Sgil Cymru. Mae'r ddau sefydliad yn darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant Cymraeg i'r sector sgrin.

## 10. Cymru a'r byd ehangach

Rydym yn dymuno dangos i'r byd ein bod ni'n ddwyieithog. Rydym yn dathlu bod ein hiaith yn cael ei siarad gan bobl o bob cefndir ac am groesawu pawb i ddefnyddio'r Gymraeg, dim ots ble maen nhw arni ar eu taith gyda'r Gymraeg.

### Cysylltiadau Rhyngwladol

Rydym wedi parhau i roi lle blaenllaw i'r Gymraeg wrth weithredu'r 'Strategaeth Ryngwladol i Gymru'. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion da a chefnogi

gwledydd a rhanbarthau sydd ag ieithoedd lleiafrifol ledled y byd. Yn ogystal â hynny, nod ein strategaeth yw codi ein proffil byd-eang, hybu twf economaidd a sefydlu Cymru fel cenedl sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy bartneriaethau strategol ac ymgysylltu diwylliannol.

Mae Llywodraeth Cymru’n gweithredu rhwydwaith o 20 swyddfa ryngwladol mewn 11 gwlad ag economi fawr sy’n cydweithredu â phartneriaid rhyngwladol i ledaenu neges Cymru, a hybu ei gwerthoedd.

Mae diplomyddiaeth ddiwylliannol – neu bŵer meddal – yn hollbwysig er mwyn codi ein proffil rhyngwladol. Rydym yn defnyddio ein holl asedau diwylliannol yn y ffordd orau bosib – ein chwaraeon; ein cerddoriaeth; ein celf; ein celfyddydau creadigol; ein treftadaeth; ein hiaith a’n hanes.

Mae hanes y Gymraeg yn taro tant â gwledydd dwyieithog neu amlieithog ar draws y byd sydd, mewn rhai achosion, yn wynebu heriau i gefnogi’r defnydd o ieithoedd brodorol, rhanbarthol neu leiafrifol yng nghyd-destun globaleiddio. Gall Cymru ddysgu o brofiadau gwledydd dwyieithog neu amlieithog eraill hefyd.

**Dydd Gŵyl Dewi**

Mae Dydd Gŵyl Dewi yn cael ei ddathlu ar draws y byd, gan arddangos treftadaeth Gymreig a chryfhau cysylltiadau dwyochrog.

Yng Ngogledd America, cynhaliodd swyddfa Washington DC dderbyniad yn Neuadd Madison Llyfrgell y Gyngres i nodi 10 mlynedd ers sefydlu Cawcws Cyfeillion Cymru. Yn Efrog Newydd a Chicago, cynhaliwyd derbyniadau ar gyfer Cymry ar wasgar, rhanddeiliaid allweddol, cynrychiolwyr y llywodraeth, addysgwyr ac arweinwyr busnes, gan hyrwyddo lansiad Wrexham Lager yn yr Unol Daleithiau hefyd. Cynhaliodd swyddfa Los Angeles ginio ym Mhreswylfa’r Conswl Cyffredinol. Roedd 30 o weithwyr technoleg a chreadigol proffesiynol o gwmnïau fel HBO, Fox, Disney a Paramount yn bresennol. Dathlodd swyddfa Canada gyda Rob Tinline, Uwch Gomisiynydd newydd Prydain yng Nghanada, ym Mhreswylfa’r Conswl Cyffredinol yn Toronto. Roedd y digwyddiad wedi rhoi sylw i gynnyrch o Gymru fel Penderyn, Snowdonia Cheese, Welsh Lady Preserves a Drop Bear Beer.

Yn Ewrop, canolbwyntiodd Iwerddon ar atgyfnerthu’r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon drwy gyfres o ddigwyddiadau, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru yn ymweld â Dulyn, a mynd i ddigwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Merched yr Academi Frenhinol Wyddelig a Darlith Flynyddol IACES.

Aeth Prif Weinidog Cymru i Baris a Brwsel, lle roedd ei rhaglen yn cynnwys y derbyniad Dydd Gŵyl Dewi blynyddol – lle roedd y thema’n canolbwyntio ar heddwch – tra bo’r tîm yn yr Almaen wedi cynnal derbyniadau a oedd yn canolbwyntio ar fuddsoddiad yn Düsseldorf a Berlin.

Yn y Dwyrain Canol, cynhaliodd swyddfa Dubai ddigwyddiad rhwydweithio Dydd Gŵyl Dewi yn Llysgenhadaeth Prydain, gan arddangos cig oen Cymru, ar gyfer cwmnïau sy’n ymweld â Gulfood a phobl leol ar wasgar. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi yn Doha, a oedd yn cynnwys panel

Diwrnod Rhyngwladol y Merched, gyda 108 o bobl yn bresennol a sylw'n cael ei roi i waith gan artistiaid o Gymru.

Dathlodd India ddiwedd blwyddyn Cymru yn India 2024 gyda digwyddiadau ar draws Mumbai a New Delhi, yn ogystal ag ymweliad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhaliodd swyddfa Japan dderbyniad ym mhreswylfa'r Llysgennad ar gyfer busnesau, lle perfformiodd yr Urdd. Hefyd, cynhaliwyd rali stampio Eki arbennig yng Nghastell Himeji, gyda dros 700 o bobl o Japan yn cymryd rhan. Yn Tsieina, roedd digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi yn canolbwyntio ar bethau amrywiol – Beijing ar gyn-fyfyrwyr o Gymru a Chymry ar wasgar, a Shanghai'n dathlu gyda busnesau. Yn Chongqing, cynhaliwyd dathliad ar y cyd gyda Swyddfa Conswl Chongqing, gan ddenu Llysgennad EF.

**Urdd Gobaith Cymru**

Wedi'i alluogi gan gyllid Llywodraeth Cymru, cyflwynodd yr Urdd raglen sylweddol o weithgarwch rhyngwladol. Er enghraifft, hyrwyddodd Llysgenhadon Ieuenctid yr Urdd eu Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn Washington DC ac Efrog Newydd, gan nodi canmlwyddiant deisebau heddwch Menywod Cymru. Arweiniodd eu gwaith at chwe phartneriaeth newydd gyda sefydliadau yn yr Unol Daleithiau, gan gynnwys JP Morgan, y Rhwydwaith Byd-eang o Adeiladwyr Heddwch Menywod, a chynrychiolwyr o'r Cenhedloedd Unedig. Yn India, gweithiodd yr Urdd mewn partneriaeth â Her Future Coalition i gynnal gweithdai i hyrwyddo gwerthoedd Cymreig yn Kolkata. Roedd y prosiect hwn yn gyfle gwych i 12 o ferched ifanc o Gymru a chyrhaeddodd dros 1,000 o bobl.

**Tîm yr Almaen**

Mae tîm Llywodraeth Cymru yn yr Almaen yn mynd ati i hyrwyddo Cymraeg mewn gweithgareddau allanol, er enghraifft mewn dathliadau blynyddol Dydd Gŵyl Dewi ac mewn digwyddiad rhwydweithio ar gyfer cyn-fyfyrwyr prifysgolion Cymru a gynhaliwyd ar y cyd â'r Cyngor Prydeinig yn Berlin ym mis Medi 2024.

Rhoddodd y tîm areithiau rhannol Gymraeg yn y digwyddiad a chodi ymwybyddiaeth o *Cymraeg 2050*. Yn ogystal â hynny, perfformiodd cantorion o Gymru yn Gymraeg a siarad am y Gymraeg.

Drwy gydol 2024-25, fe wnaeth tîm Llywodraeth Cymru yn yr Almaen hefyd gryfhau cysylltiadau â'r partneriaid canlynol fel rhan o amcan i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn yr Almaen – yr Adran Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Bonn lle mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu; y clwb dysgwyr Cymraeg yn Berlin, 'Clwb Cymraeg Berlin'; a Phrifysgol Regensburg i baratoi ar gyfer ei gŵyl ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru a gynhaliwyd yn Regensburg ym mis Hydref 2025.

**Iwerddon**

Mae tîm Iwerddon Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar iaith, ac mae Llywodraeth Iwerddon yn dilyn ein hesiampl o ran y cynnydd rydym wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg.

**Y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (MENA)**

Ar gyfer ein dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn yr Emiradau Arabaidd Unedig, canodd côr ysgol lleol yn Gymraeg (yr anthem genedlaethol a detholiad o ganeuon Cymreig).

**Unol Daleithiau America a Chanada**

Drwy gydol y flwyddyn, mae tîm Llywodraeth Cymru wedi gweithio i hyrwyddo diwylliant a gwerthoedd Cymru ar draws yr Unol Daleithiau a Chanada. I gydnabod mis Pride, ymunodd y swyddfeydd â dathliadau lleol yn Washington DC, Efrog Newydd a Chicago, gan dynnu sylw at uchelgais Cymru i fod y wlad fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop. Fe wnaethom noddi Gŵyl Cymru Gogledd America yn Pittsburgh, a oedd yn llwyfan amlwg ar gyfer arddangos diwylliant Cymru, tra bod gweithgarwch ychwanegol fel Diwrnod Rhyngwladol Dylan Thomas yn Efrog Newydd a chydweithio ag asiantaethau'r Unol Daleithiau ar warchod ieithoedd brodorol yn pwysleisio ymhellach ymrwymiad Cymru i ddiplomyddiaeth ddiwylliannol. Ar ben hynny, roeddem yn falch iawn o allu hyrwyddo ffilm o Gymru yng Ngŵyl Ffilm enwog Sundance, gan danlinellu amlygrwydd rhyngwladol cynyddol diwydiannau creadigol Cymru.

**India**

Ym mis Tachwedd 2023, yn ystod digwyddiad blynyddol Diwali Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd mai 2024 fyddai blwyddyn Cymru yn India.

Ym mis Chwefror 2024, cafodd y flwyddyn ei lansio'n ffurfiol yn ystod digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi ym Mumbai, New Delhi a Bengaluru. Cynhaliodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyniad ym Mumbai, i gyd-fynd â derbyniad ym Mhreswylfa Uchel Gomisiynydd India yn Llundain, a gynhaliwyd gan Brif Weinidog Cymru. Roedd partneriaid wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Urdd Gobaith Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, British Council Cymru, a busnesau allweddol.

Mae'r cysylltiadau diwylliannol rhwng Cymru ac India yn gyfoethog ac yn haeddu cael eu dathlu'n barhaus. Roedd Cymru yn India yn gyfle i gryfhau cysylltiadau ac arddangos cryfderau ac ymrwymiad Cymru i fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Defnyddiodd y rhaglen arddangosfeydd diwylliannol i godi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, yn enwedig mewn digwyddiadau lansio ac yn nigwyddiad swyddogol cloi'r flwyddyn a gynhaliwyd yn ystod Gŵyl Hornbill yn Nagaland – un o'r digwyddiadau diwylliannol mwyaf yn India – a ddewisodd Cymru fel gwlad bartner a galluogi artistiaid o Gymru i berfformio yn y digwyddiad mawreddog hwn.

Ym mis Mai 2024, fe wnaethom gynnal sesiwn gyda chynrychiolwyr o British Council India a Gweinyddiaeth India ynghylch 'Cymraeg 2050', a hwylusodd y gwaith o gyfnewid yr arferion gorau mewn addysg ddwyieithog.

Sefydlwyd Cronfa Ddiwylliannol Cymru yn India drwy bartneriaeth â'r British Council a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru i helpu pum artist i feithrin cysylltiadau ar draws meysydd fel y celfyddydau mewn iechyd, cerddoriaeth, llenyddiaeth a theatr y blynyddoedd cynnar. O ganlyniad, cydlynodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru brosiectau a oedd yn canolbwyntio ar Ogledd-ddwyrain India a'i hieithoedd lleiafrifol, gan gynnwys y Khasi-Cymru Collective, lle treuliodd Gareth Bonello, y cerddor o Gymru, 10 diwrnod yn Shillong, Gogledd-ddwyrain India, yn creu cerddoriaeth a barddoniaeth Khasi a Chymraeg newydd.

### Cytundebau rhyngwladol

Fe wnaethom barhau i ddilyn ymrwymiadau polisi iaith o gytundebau dwyochrog rhyngwladol sy'n cwmpasu rhanbarthau fel Llydaw, Catalonia, Silesia, Fflandrys, Gwlad y Basg, ac Iwerddon.

### Patagonia

Mae Prosiect y Gymraeg yn parhau i ddatblygu'r iaith yng nghymunedau Cymraeg talaith Chubut, Patagonia, drwy wersi ffurfiol i bobl ifanc ac oedolion, yn yr ysgolion dwyieithog yn y dalaith, a drwy weithgareddau cymdeithasol anffurfiol. Yn ystod 2024-25, roedd dros 1,106 o ddysgwyr wedi cofrestru (mewn ysgolion ac fel oedolion sy'n dysgu) – sydd wedi codi o 623 yn 2020 a 970 yn 2023-24. Roedd un athro ar leoliad rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2024 ac mae Cydlynydd Addysgu parhaol o Gymru, sy'n gyfrifol am ansawdd yr addysgu, hefyd wedi'i leoli ym Mhatagonia. Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi rhwydwaith o dros ugain o diwtoriaid Cymraeg eu hiaith yn y rhanbarth, gan ddarparu cymorth addysgu i'r ysgolion dwyieithog yn ogystal ag addysgu oedolion. Mae'r rhwydwaith yn cael cymorth gan gydlynydd digidol rhan-amser yng Nghymru.

### Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol

Rydym yn aelod llawn o'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (yr NPLD) sy'n gweithredu ar draws Ewrop, gan ganolbwyntio ar bolisi a chynllunio ieithyddol ar gyfer Ieithoedd Cyfansoddiadol, Rhanbarthol a Gwladwriaethol Bach. Ei brif nod yw cynyddu cydnabyddiaeth o werth amrywiaeth ieithyddol ar lefel Ewropeaidd. Yn ogystal, mae'r Rhwydwaith yn annog rhannu'r arferion gorau ymysg llywodraethau, llunwyr polisïau, ymarferwyr, ymchwilwyr ac arbenigwyr o bob rhan o'r cyfandir.

### Cynhadledd y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol: 'The Impact of Language Technologies on the Economy and Society'

Ym mis Ebrill 2024, rhoesom anerchiad sesiwn lawn yn y Gynhadledd 'The Impact of Language Technologies on the Economy and Society', a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol mewn partneriaeth â Llywodraeth Galicia. Daeth y digwyddiad hwn ag arbenigwyr, llunwyr polisïau ac ymchwilwyr o bob rhan o Ewrop ynghyd i archwilio sut mae technolegau iaith yn cefnogi'r gwaith o ddiogelu a thyfu ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol.

Mae technolegau iaith – fel prosesu iaith naturiol, cyfieithu peirianyddol, ac adnabod lleferydd – yn hanfodol ar gyfer cynyddu mynediad at gynnwys digidol a llwyfannau cyfathrebu i siaradwyr ieithoedd lleiafrifol. Mae'r adnoddau hyn yn helpu i chwalu rhwystrau, i feithrin cynhwysiant ac i gefnogi trosglwyddo ieithoedd rhwng y cenedlaethau. Maent hefyd yn cynyddu amlygrwydd ieithoedd lleiafrifol mewn addysg, y cyfryngau, diwylliant a'r economi.

**Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Rydym yn parhau i gadeirio grŵp gwaith Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, ac yn parhau i fanteisio ar y fforwm hwn i rannu arferion da ac arbenigedd gyda phobl o wahanol gefndiroedd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r grŵp wedi parhau i gyflawni ei flaengynllun gwaith, gan ganolbwyntio ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg (gartref, ymysg pobl ifanc ac mewn gweithleoedd), seilwaith ieithyddol (er enghraifft geiriaduron ac enwau lleoedd), a diwylliant. Fe wnaethon nhw hyn drwy ddod ag arbenigwyr at ei gilydd ar-lein ac yn ystod ymweliad safle â Belfast i rannu syniadau, heriau a chyfleoedd mewn meysydd fel enwau lleoedd, AI ac ieithoedd lleiafrifol, a chefnogi rhieni yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Ym mis Mehefin 2023, aeth y grŵp i'r Ŵyl Cyfryngau Celtaidd yng Nghaerdydd i gymryd rhan mewn sesiwn banel o'r enw 'Livelihoods and language: Making a living where you're living', a oedd yn canolbwyntio ar greu cyfleoedd gwaith sydd hefyd yn cefnogi ein hieithoedd a'n heconomïau, yn enwedig y tu allan i'r canolfannau traddodiadol. Arweiniodd hyn at y grŵp yn trefnu'r Rhaglen Gyfnewid Geltaidd gyntaf i'r Hebrides Allanol ar gyfer pobl ifanc o Gymru, Cernyw ac Iwerddon yn ystod mis Ebrill 2025 – byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Parhaodd y grŵp i brif ffrydio gwaith polisi Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd ar draws y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, er enghraifft drwy ymuno ag ymweliad safle ar y cyd ar gyfer y sector gwaith Cyffuriau ac Alcohol / Blynyddoedd Cynnar ym Mhowys yn ystod y flwyddyn.

**Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022-32**

Rydym wedi trafod nifer o bynciau gydag UNESCO, yn benodol technoleg ar gyfer ieithoedd llai eu defnydd fel rhan o weithgarwch Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig 2022-32. Ym mis Mawrth 2025, aeth dirprwyaeth o Lywodraeth Cymru i UNESCO a thrafod camau pendant ar gyfer cydweithio ym maes profiad defnyddwyr o feddalwedd ddwyieithog. Yn seiliedig ar ein gwaith ym maes technoleg a gwasanaethau dwyieithog yng Nghymru, byddwn, o ganlyniad i'r ymweliad, yn gweithio gydag UNESCO i greu pecyn a fydd yn hyrwyddo'r prif egwyddorion ar gyfer profiad dwyieithog da i ddefnyddwyr mewn meddalwedd ar gyfer sefyllfaoedd dwyieithog ledled y byd. Byddwn yn parhau i godi proffil y Gymraeg a rhannu'r arferion gorau gydag eraill ledled y byd fel rhan o'n

hymrwymiad i fod yn ‘genedl sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang’. Mae’r gwaith hwn yn cynnwys parhau i feithrin a chryfhau partneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol fel Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi parhau â’u prosiect Gwrando, gan ganolbwyntio ar y grefft o wrando ar y doethineb sy’n perthyn i ieithoedd brodorol a chymunedau sydd mewn perygl, a’r tir y maent yn byw arno. Dyma rai o’r prosiectau a fu ar waith yn ystod y flwyddyn: dysgu rhagor am juoiggus sef traddodiad caneuon hynafol y Sámi; cysylltu â mamiaith drwy wrando ar y Gawa Undi a Henuriaid y Bobl Chewa; gwrando ar leisiau hynafiaid a defod iachau traddodiadol pobl frodorol Muisca Colombia; parhau i archwilio’r cysylltiadau rhwng Cymry a phobl Khasi drwy farddoniaeth, cerddoriaeth a pherfformio; ac archwilio a chychwyn deialog am greu iaith cwiar yng Ngwyddeleg ac yn Gymraeg.

## 11. Technoleg a’r Gymraeg

Ym mis Mehefin 2024, fe wnaethom lansio galwad am wybodaeth i gasglu tystiolaeth a syniadau gan y cyhoedd, sefydliadau a rhanddeiliaid am ddyfodol technoleg Cymraeg. Y nod oedd deall anghenion pobl sy’n dymuno defnyddio’r Gymraeg mewn cyd-destunau digidol a nodi pa ddatblygiadau technolegol fyddai’n ei gwneud hi’n haws defnyddio mwy o Gymraeg ar-lein ac mewn gwasanaethau digidol. Roedd yr alwad hon am wybodaeth yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed ers Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg 2018, a oedd yn blaenoriaethu arloesi agored a datblygu adnoddau digidol fel technoleg lleferydd, cyfieithu â chymorth cyfrifiadur, ac AI sgwrsiol. Roedd yr alwad yn gwahodd ymatebion ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys rhwystrau i ddefnyddio’r Gymraeg mewn technoleg, awgrymiadau ar gyfer offer newydd, a ffyrdd o gynyddu’r defnydd dyddiol o’r Gymraeg drwy dechnoleg.

Daeth yr alwad am wybodaeth i ben ym mis Hydref 2024 ac, ar sail y canlyniadau hynny, ym mis Ionawr 2025 gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg dair prif flaenoriaeth ar gyfer technoleg Gymraeg ac AI:

- gwella technoleg fel ffordd o gynyddu’r defnydd dyddiol o’r Gymraeg
- sicrhau bod pawb yn gallu cael at dechnoleg Cymraeg
- gwella AI Cymraeg a thechnolegau lleferydd (drwy rannu data a ffyrdd eraill)

Nod y flaenoriaeth gyntaf yw gwella technoleg i gynyddu’r defnydd dyddiol o’r Gymraeg, yn enwedig mewn gweithleoedd, addysg a bywyd cymdeithasol, gan gynnwys sicrhau bod offer fel gwirwyr sillafu a gramadeg yn gyfredol, ac ar gael yn eang. Mae’r ail flaenoriaeth yn ymrwymo i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at dechnoleg Gymraeg, gan ganolbwyntio ar gefnogi datblygwyr, rhieni, athrawon a defnyddwyr, a rhannu adnoddau a diweddariadau drwy lwyfannau fel Hwb. Mae’r drydedd flaenoriaeth yn pwysleisio gwella AI a thechnolegau lleferydd Cymraeg drwy rannu data a chydweithio â phartneriaid fel Microsoft ac UNESCO. Mae hyn yn cynnwys datblygu modelau AI gwell, casglu a chyfrannu data amrywiol, ac annog sefydliadau eraill i wneud hynny hefyd, a sicrhau bod y

Gymraeg yn cael ei chynrychioli'n dda mewn technolegau newydd. Y nod cyffredinol yw ei gwneud hi'n haws defnyddio'r Gymraeg mewn technoleg, a defnyddio'r holl bosibiliadau y mae technoleg yn eu cynnig i'n helpu i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom ariannu 4 prosiect technoleg i'w gwneud hi'n haws inni ddefnyddio mwy o'n Cymraeg:

- Roedd prosiect Iriaith Prifysgol Bangor wedi casglu a thrawsgrifio llawer mwy o oriau o ddata hyfforddi, gyda phwyslais penodol ar newid cod, a arweiniodd at welliannau yn eu modelau adnabod llais. Casglodd y prosiect dros 440,000 o frawddegau testun trwydded agored cyfatebol Cymraeg a Saesneg oddi ar y we a'u defnyddio fel data hyfforddi, gan addasu model iaith mawr (LLM) agored Llama 3 er enghraifft, i wella ei gywirdeb yn Gymraeg. Roedd hefyd wedi gwella'r Trawsgrifiwr ac ansawdd lleisiau synthetig dwyieithog Cymraeg a Saesneg.
- Gan weithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg, nododd prosiect Wicipedia a Llyfrgell Genedlaethol Cymru filoedd o enwau lleoedd Cymraeg yn eu casgliadau a thu hwnt, gan rannu cyfanswm o 11,264 o labeli lleoedd Cymraeg fel data agored.
- Nod y prosiect SENTimental, a oedd yn cynnwys ymchwilwyr prosesu iaith naturiol o Brifysgol Caerhirfryn, ieithyddion cymhwysol ac arbenigwyr ar y Gymraeg o Brifysgol Caerdydd, oedd adeiladu modelau iaith prawf cysyniad (bach) ar gyfer dadansoddi sentiment Cymraeg. Er bod y gronfa o gyfranogwyr yn un fach, casglwyd dros 4,500 o ymatebion a oedd yn cynnwys 109,019 o eiriau Cymraeg, gan ddangos dichonoldeb rhagfynegi sentiment Cymraeg yn gywir ac effeithiolrwydd mireinio dynol yn y fan a'r lle.
- Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd dros 30,000 o dagiau 'Cy' ar y map data agored, OpenStreetMap, bron i dair gwaith cymaint ers dechrau'r prosiect 'Mapio Cymru' yn 2018.

## 12. Seilwaith ieithyddol

Mae adnoddau seilwaith ieithyddol yn ein helpu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd, ac maent yn cynnwys geiriaduron, adnoddau terminoleg, corpora, yn ogystal â gwaith ymchwil a safoni. Rydym yn ariannu nifer o brosiectau yn y maes yn uniongyrchol, gan gynnwys 'Geiriadur Prifysgol Cymru' a'r 'Termiadur Addysg'. Mae nifer o'r prif adnoddau eraill hefyd yn derbyn arian cyhoeddus drwy wahanol asiantaethau.

Cyhoeddwyd ein 'Polisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg' yn 2023, gyda'r nod o'i gwneud hi'n haws i bobl o bob cefndir ddefnyddio'r Gymraeg – pobl yn eu gwaith o ddydd i ddydd, plant ysgol, athrawon, siaradwyr newydd neu siaradwyr hyderus – drwy wneud yn siŵr eu bod yn gwybod ble i gael gafael ar yr adnoddau ieithyddol iawn ar eu cyfer.

Yn ystod 2024-25, fe wnaethom barhau â'r gwaith o wneud i'r gwahanol elfennau weithio gyda'i gilydd yn well, gyda'r nod tymor canolig o sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu marchnata'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cynnal a

datblygu'r berthynas gyda'r prif randdeiliaid, chwilio am gyfleoedd newydd i gydweithio, a meithrin cysylltiadau newydd.

Er mwyn datblygu tudalen we newydd, hawdd ei defnyddio i bawb sydd am ddefnyddio'r Gymraeg, fe wnaethom weithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i gynnal ymchwil defnyddwyr er mwyn deall gofynion gwahanol gynulleidfaoedd yn well. Ar sail hyn, dechreuodd cynnwys y tudalennau gwe ddod at ei gilydd, gan arwain at lansio'r wefan Beth yw'r gair Cymraeg am...? yn ystod blwyddyn adrodd 2025-26.

Yn ystod 2024-25, parhaodd Panel Safoni'r Gymraeg, dan gadeiryddiaeth Dr Dylan Foster Evans o Brifysgol Caerdydd, i gyfarfod i drafod materion orthograffig. Cynhyrchwyd crynodeb o'r penderfyniadau, a daeth y Panel ynghyd i drafod a chymeradwyo'r rhain. Y cam nesaf yw rhannu penderfyniadau gydag adrannau prifysgolion Cymru, cyn eu rhannu'n gyhoeddus a diweddaru adnoddau ieithyddol Cymraeg i adlewyrchu'r penderfyniadau hynny. Bydd cynnwys rhai o'r prif ddarparwyr adnoddau seilwaith yn y prosiect yn sicrhau rhagor o gysondeb er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr fynd ati i ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus. Mae'r Panel bellach wrthi'n paratoi ei ail raglen waith.

**Enwau lleoedd**

Yn ein 'Rhaglen Lywodraethu', rydym wedi ymrwymo i weithio i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg.

Cafodd ein camau cychwynnol eu hamlinellu yn ein 'Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg' (Hydref 2022) a'n 'Polisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg' (Mehefin 2023). Ddechrau 2023, comisiynwyd prosiect ymchwil gan Cadw, mewn cydweithrediad â'r Is-adran 'Cymraeg 2050', gyda'r amcan o nodi ble, sut a pham mae enwau lleoedd yn newid, faint o enwau sy'n newid neu sydd wedi newid yn ddiweddar, a natur y newidiadau hyn. O ganlyniad, cyhoeddwyd yr adroddiad Newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru: ymchwil ar dueddiadau cyfredol ym mis Mehefin 2025. Roedd yr ymchwil hon yn sail i'n camau a'n blaenoriaethau nesaf ar gyfer enwau lleoedd Cymru, fel yr amlinellir mewn Datganiad Llafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ym mis Medi 2025. Byddwn yn rhoi diweddariad manylach ar y ddogfen ymchwil a'r datganiad yn Adroddiad Blynyddol 2025-26.

Mae ein Fforwm Sirol Enwau Lleoedd wedi parhau i gyfarfod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'n cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru yn ogystal ag awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yn ystod y cyfnod adrodd, ymunodd cynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri â'r grŵp hefyd. Nod y Fforwm yw:

- Rhannu gwybodaeth.
- Canfod bylchau yn y ffordd o ymdrin ag enwau lleoedd, a chyfleoedd i gydweithio.
- Cefnogi ein gilydd i geisio canfod datrysiadau ymarferol i atal enwau Cymraeg rhag cael eu disodli.

- Rhannu arferion da, fel bod enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio mewn un sefydliad yn gallu cael eu mabwysiadu, lle bo'n briodol, mewn sefydliad arall.
- Datblygu syniadau am sut i brif ffrydio'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg mewn deunyddiau ac ar sianeli Saesneg yn ogystal â rhai Cymraeg.

## 13. Cynllunio ieithyddol

Mae'r holl weithgarwch yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu cynnydd mewn cynllunio ieithyddol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n llwyddiannus drwy strwythurau Llywodraeth Cymru i ddatblygu 'Cymraeg 2050' ar draws nifer o feysydd polisi a thu hwnt.

Chwaraeodd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ran ganolog drwy ddarparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar gynllunio ieithyddol a gyrru'r gwaith o integreiddio ystyriaethau iaith ar draws holl bortffolios y llywodraeth. Yn ogystal â hynny, cafodd yr amcanion prif ffrydio eu cryfhau drwy ymgysylltiad trawslywodraethol Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ag ysgrifenyddion a gweinidogion cabinet eraill.

## 14. Gwerthuso ac ymchwil

Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 ar y Gymraeg yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2022, rydym wedi cyhoeddi dadansoddiadau ychwanegol, gan gynnwys ar gyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd yn ôl rhyw, y Gymraeg yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, a chyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg fesul awdurdod lleol yn 2001, 2011 a 2021.

Cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mawrth 2020, a chyhoeddwyd bwletin ystadegol ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ym mis Medi 2024 ar sail yr arolwg.

Rydym hefyd wedi bod yn parhau i gyhoeddi amcangyfrifon o allu'r boblogaeth yn y Gymraeg o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ein gwefan bob chwarter. Mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r prif ffynonellau data gweinyddol ac arolygon a ddefnyddir i lunio ystadegau ar y Gymraeg.

Cyhoeddwyd asesiad cyflym o'r dystiolaeth ar gyfer cyrchddulliau a dulliau effeithiol mewn addysg drochi ym mis Mai 2024. Cafodd tystiolaeth o Gymru a thu hwnt ar drochi iaith ar gyfer dysgwyr 3 i 16 oed ei chasglu, ei gwerthuso a'i chrynhoi, er mwyn rhoi arweiniad i ymarferwyr a llunwyr polisi. Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu helaeth i ddiffinio 'Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil' ar gyfer 'Cymraeg 2050'. Nod y rhain yw meithrin cydweithio dyfnach gyda'r gymuned ymchwil ynghylch cwestiynau allweddol am y Gymraeg.

Rydym yn parhau i gydariannu a chefnogi'r prosiect 'BRO: Arolwg Sosioieithyddol Cynhwysfawr o Gymunedau Cymraeg Cyfoes'. Mae'r prosiect BRO yn astudiaeth fanwl tair blynedd o ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg sy'n canolbwyntio ar yr ardaloedd lle mae dwysedd siaradwyr ar ei uchaf. Mae'n brosiect a fydd yn rhoi

cyfle inni ddeall yn fanwl, ar lefel gymunedol, beth yw natur y newid ieithyddol sy’n digwydd yng Nghymru – rhywbeth nad oes modd i ddata cyfrifiad ei wneud.

Bydd y prosiect yn rhoi’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth inni er mwyn gallu mynd i’r afael â’r heriau sy’n wynebu ein cymunedau. Gan ddefnyddio dull methodolegol aml-foddol, bydd y prosiect yn cynhyrchu:

- dadansoddiad manwl o ddefnydd iaith mewn cymunedau lle mae dwysedd siaradwyr ar ei uchaf.
- model ar gyfer deall a monitro newid ieithyddol mewn cymunedau Cymraeg.
- argymhellion ar gyfer mynd i’r afael â newid ieithyddol mewn cymunedau o’r fath.

Cyhoeddwyd allbwn cyntaf y prosiect, sef crynodeb a dadansoddiad o’r data iaith o Gyfrifiad 2021, fel rhan o adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ym mis Awst 2024. Mae’r dadansoddiad yn awgrymu bod y Gymraeg yn colli tir ymysg grwpiau o gefndir llai breintiedig mewn rhai cymunedau Cymraeg. Mae’r dadansoddiad hefyd yn awgrymu bod rhai sectorau economaidd yn arbennig o bwysig i ddyfodol y Gymraeg, fel amaethyddiaeth a rhannau o’r sector cyhoeddus, tra bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu tangynrychioli fel grŵp yn y categorïau economaidd-gymdeithasol mwyaf breintiedig.

Drwy gydol y flwyddyn, datblygwyd ymhellach y gwaith o brif ffrydio’r Gymraeg yng ngwaith ymchwil a gwerthuso’r Llywodraeth ar draws yr amrywiol feysydd polisi.

## Casgliad

Mae’r adroddiad hwn yn gyfle i edrych yn ôl ar ein gwaith ni a gwaith ein partneriaid mewn amrywiaeth eang o feysydd yn ystod 2024-25 er mwyn tynnu sylw at ein prif lwyddiannau, a’u dathlu. Mae’n manylu ar ein gwaith tuag at gyflawni ein targedau i gynyddu’r defnydd dyddiol o’r Gymraeg a chyrraedd y miliwn erbyn 2050. Mae’n bwysig nodi y dylid ystyried y flwyddyn adrodd hon, fel bob amser, yn rhan o lwybr hirdymor ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg.

Wrth edrych yn ôl ar ein cynnydd, rydym hefyd yn edrych ymlaen at ddiwedd ein Rhaglen Waith gyfredol, a ddaw i ben yn 2026. Byddwn yn parhau i weithio ar draws y Llywodraeth a gyda phartneriaid yn unol â Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) i gynnal ein cymunedau Cymraeg, i gynyddu defnydd iaith ym mhob ardal a chyd-destun, ac i ddatblygu technoleg iaith.